

Dinbych: Deall Nodweddion Trefol



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cadw
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Plas Carew
Uned 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd CF15 7QQ

Ffôn: 01443 33 6000
Ffacs: 01443 33 6001

Cyhoeddwyd gyntaf gan Cadw 2010.
ISBN 978-1-85760-281-4
Hawlfraint y Goron 2010.

Cadw yw gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru,
yn gweithio i sicrhau amgylchedd hanesyddol hygyrch a ddiogelir yn dda i Gymru.

Dinbych:
Deall Nodweddion
Trefol

Cydnabyddiaeth

Fel rhan o'r astudiaeth hon, bu Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd-Powys yn gwneud gwaith mapio hanesyddol a nodi potensial archeolegol o dan gontract i Cadw. Darparodd Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru (CBHC) y rhan fwyaf o'r ffotograffau ar gyfer yr astudiaeth hon, ynghyd â darluniadau'r arolwg, sy'n deillio o waith ymchwilio manwl a gynhaliwyd gan CBHC yn Ninbych ers 2000. Rhestrir safleoedd y ceir gwybodaeth bellach amdanynt ar Coflein yn yr atodiad i'r adroddiad hwn.

Cynnwys

Cyflwyniad	5	<i>Potensial Archeolegol</i>	53
Nodau'r Astudiaeth	5	<i>Nodweddion Adeiladu</i>	54
Cefndir Hanesyddol	7	4 Love Lane	56
Hanes Cynnar	7	<i>Cefndir Hanesyddol</i>	56
Gwlad a Thref	10	<i>Potensial Archeolegol</i>	56
Y Dadeni: Dinbych ar ddiwedd yr Unfed Ganrif ar Bymtheg	11	<i>Nodweddion Adeiladu</i>	57
'Large, Populous and Well-Built': Dinbych yn y Ddeunawfed Ganrif	15	5 Pwll y Grawys a Bridge Street	58
Masnach	19	<i>Cefndir Hanesyddol</i>	58
Y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg: Datblygiadau Dinesig a Diwylliannol	23	<i>Potensial Archeolegol</i>	59
Twf Trefol: Dechrau'r Ugeinfed Ganrif	25	<i>Nodweddion Adeiladu</i>	59
Tirwedd Hanesyddol	26	6 Factory Place, Chapel Place, Rhiw'r Bigwn a Ffynnon Barcer	59
Nodweddion Adeiladu	31	<i>Cefndir Hanesyddol</i>	59
Cronoleg Datblygiad	31	<i>Potensial Archeolegol</i>	61
Deunyddiau Adeiladu	37	<i>Nodweddion Adeiladu</i>	61
Mathau o Adeiladau Trefol	42	7 Stryd Henllan	62
Patrymau Datblygu Trefol	44	<i>Cefndir Hanesyddol</i>	62
Ardaloedd Cymeriad	46	<i>Potensial Archeolegol</i>	63
1 Y Castell a'r Dref Gaerog	46	<i>Nodweddion Adeiladu</i>	63
<i>Cefndir Hanesyddol</i>	46	8 Ruthin Road	64
<i>Potensial Archeolegol</i>	47	<i>Cefndir Hanesyddol</i>	64
<i>Nodweddion Adeiladu</i>	47	<i>Potensial Archeolegol</i>	64
2 Stryd Fawr (gan gynnwys Llain Portland, Lôn Gefn, Lôn Crown, Lôn Swan a phen uchaf Stryd y Dyffryn)	49	<i>Nodweddion Adeiladu</i>	65
<i>Cefndir Hanesyddol</i>	49	9 Gorllewin Dinbych	65
<i>Potensial Archeolegol</i>	50	<i>Cefndir Hanesyddol</i>	65
<i>Nodweddion Adeiladu</i>	50	<i>Potensial Archeolegol</i>	65
3 Stryd y Dyffryn (gan gynnwys Lôn Parc, Lôn Ganol, Lôn y Post, Peake's Lane)	52	<i>Nodweddion Adeiladu</i>	65
<i>Cefndir Hanesyddol</i>	52	Datganiad Pwysigrwydd	66
		Ffynonellau Detholedig	67
		Mapiau o Ddinbych	68
		Atodiad I	69
		Arolwg ac Archif Comisiwn Brenhinol	
		Henebion Cymru yn Ninbych	69
		Ôl-nodiadau	70

Rhestr o Fapiau tudalennau 71–84

- 1 Dinbych: Y Dref Ganoloesol
- 2 Dinbych: Y Dref a'r Dirwedd Ganoloesol
- 3 Twf Dinbych

Ardaloedd Cymeriad

- 4 Pob Ardal Cymeriad
- 5 Ardaloedd Cymeriad: Henebion
Cofrestredig, Adeiladau Rhestredig ac
Ardaloedd Cadwraeth
- 6 Y Castell a'r Dref Gaerog (1)

- 7 Stryd Fawr (gan gynnwys Llain Portland, Lôn
Gefn, Lôn Crown, Lôn Swan a phen uchaf
Stryd y Dyffryn) (2)
- 8 Stryd y Dyffryn (gan gynnwys Lôn Parc,
Lôn Ganol, Lôn y Post a Peake's Lane) (3)
- 9 Love Lane (4)
- 10 Pwll y Grawys a Bridge Street (5)
- 11 Factory Place, Chapel Place, Rhiw'r
Bigwn a Ffynnon Barcer (6)
- 12 Stryd Henllan (7)
- 13 Ruthin Road (8)
- 14 Gorllewin Dinbych (9)

Cyflwyniad

Nodau'r Astudiaeth


Nod nodweddu trefol yw disgrifio ac egluro cymeriad hanesyddol trefi i roi ffocws i natur unigryw leol a chynnig ffordd o reoli'r amgylchedd hanesyddol mewn modd cynaliadwy. Ei nod yw llywio a chefnogi rhaglenni cadwraeth ac adfywio cadarnhaol, helpu i wella ansawdd cyngor cynllunio, a chyfrannu at strategaethau dehongli ac addysgu lleol.

Mae nodweddu trefol yn diffinio cymeriad hanesyddol unigryw trefi unigol, ac yn nodi'r amrywiaeth o nodweddion ynddynt, gan gydnabod bod y nodweddion hyn yn hanfodol i natur leol unigryw a brogarwch, ac yn ased o ran gwaith adfywio. Mae'n ystyried sut y caiff hanes tref ei fynegi yn ei chynllun a'i thirwedd, mewn ardaloedd o botensial archeolegol, ac yn ei chymeriad archeolegol. Nid archwiliad o nodweddion yn unig yw'r arolwg, ond ail-greu'r themâu a'r prosesau sydd wedi llunio'r dref.

Bu Menter Treftadaeth Treflun ar waith yn Ninbych ers 2000 ac, o ganlyniad i'r fenter honno, gwelwyd gwaith cadwraeth ac atgyweirio ar nifer o adeiladau allweddol yn y dref; ar y cyd â'r fenter, mae Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru (CBHC) wedi cynnal rhaglen o arolygon manwl o adeiladau allweddol. Mae cynlluniau eraill — gwaith Adnewyddu Tai yn arbennig — wedi arwain at waith atgyweirio sympathetig hefyd. At hynny, mae gwaith Cymdeithas Ddinesig Dinbych, a Drysau Agored Dinbych yn arbennig, wedi helpu i godi proffil yr amgylchedd hanesyddol yn y dref. Nod yr astudiaeth hon yw adeiladu ar y mentrau hyn sy'n bodoli eisoes a, thrwy edrych ar y cyd-destun trefol eang, ddarparu llinell sylfaen ar gyfer gwaith cynllunio strategol yn ogystal â gwaith rheoli a dehongli lleol yn y dref.

Mae'r cymysgedd trawiadol o adeiladau yn Ninbych a'i lleoliad ar ochr bryn yn creu treflun dramatig.





*Dinbych o'r gogledd
(Hawlfraint y Goron:
CBHC).*

Cefndir Hanesyddol



Hanes cynnar

'A stoute castle, adjoining thereto, a town walled about'.¹

Bu cytundeb ers tro bod tref Dinbych ar ddiwedd y drydedd ganrif ar ddeg wedi'i lleoli yn gyfan gwbl o fewn y muriau, a'i bod wedi'i disodli gan dref newydd, a adeiladwyd y tu hwnt i'r muriau hynny, yn ystod y bymthegfed ganrif. Mae'n debygol bod y disgrifiad hwn o'i hanes yn deillio o'r unfed ganrif ar bymtheg, pan nododd John Leland a William Camden fod dwy dref wahanol yn Dinbych a bod y dref o fewn y muriau yn dadfeilio ac wedi lleihau i raddau helaeth. Y rheswm am hyn yn ôl Camden oedd gwrthryfel 1468, a'r ffaith bod Siasber Tudur, Iarll Penfro, wedi llosgi'r dref. Wrth sôn am y cyfnod ers hynny nododd, 'either because the inhabitants disliked the situation of it... or else because it was not well served with water, they removed hence by degrees. In so much that the old town is now deserted, and a new one, much larger, sprung up at the foot of the hill'.²

Yn yr un modd, yn ôl Leland, 'there have been divers rows of streets within the wallid town, of which the most be now downe in manner, and at this tyme there be scant eighty households. I had not yet lerned to certente how this wallid town decayed within, whether it were by fire, for lack

of water... of for lack of good carryage into the town standing somewhat high of rocky ground. I cannot tell but the toune of Denbigh now occupied and adjoining to the old toune hath been wholly made of late tyme, and so much more to commoditie of carryage and water by many wells in it and the increase of this was the decay of the other. At this present tyme, the new is three tymes as big as the old'.³

Roedd y syniad o hen dref goll yn apelio at synwyrusrwydd rhamantaidd. Yn 1859, ysgrifennodd John Sproule y canlynol am y dref: '[it] was evidently a place of much more importance than it is at present'.⁴ Ond yn fwy diweddar, mae astudiaeth fanwl o gofnodion canoloesol wedi awgrymu stori wahanol iawn: yn ôl pob tebyg, roedd Dinbych yn cynnwys dwy dref fwy neu lai o'r cychwyn cyntaf — y fwrdeistref o fewn y mur, ac anheddiad ar wahân y tu hwnt iddo. Y dref allanol oedd y dref fasnachol, ac wrth iddi ffynnu, fe'i gwelwyd yn newid ac yn ehangu — i'r fath raddau nes bod y dref o fewn y muriau wedi hen golli ei phwysigrwydd erbyn yr unfed ganrif ar bymtheg.

Fodd bynnag, nid y dref a sefydlwyd ar ddiwedd y drydedd ganrif ar ddeg oedd yr anheddiad cyntaf yno. Sefydlwyd Dinbych fel rhan o dreftadaeth tywysogion Cymru ac roedd yn cynnwys tir rhwng afon Dyfrdwy ac afon Conwy, a elwid yn Berfeddwlad. Roedd y tir hwn yn nwylo Llywelyn

Y castell a muriau'r dref, fel y darluniwyd gan Samuel a Nathaniel Buck yn 1742 (North East View of Denbigh Castle, Llyfrgell Genedlaethol Cymru).



Mae'r ardal brin ei phoblogaeth o fewn muriau'r dref yn cyferbynnu â'r dref boblog a ddatblygwyd y tu hwnt i'r muriau (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Fawr yn 1230, ac er iddo gael ei ildio i'r Goron yn y 1240au, cafodd ei ailgipio gan Llywelyn ap Gruffydd yn 1256: cafodd ei ddaliadaeth ei ffurfioli drwy gytuniad yn 1267. Cipiwyd y diriogaeth gan Edward I yn 1277 a rhoddwyd rhywfaint ohoni i Dafydd ap Gruffydd, brawd Llywelyn. Fodd bynnag, ar ôl eu gwrthryfel a'u gorchfygiad yn 1282, rhoddodd Edward I ran sylweddol ohoni i Henry de Lacy, larll Lincoln. Bu'r rhodd tir hwn yn ffurfio arglwyddiaeth Dinbych, gwobr am deyrngarwch, ac enaid economaidd y dref. Roedd y brenin a de Lacy gyda'i gilydd yn Ninbych yn cynllunio'r gwrthgloddiau ym mis Hydref 1282, ond de Lacy oedd yn bennaf cyfrifol am ddatblygu'r castell a'r dref. O dan ei nawdd, adeiladwyd y castell a muriau'r dref, ac fe'u cwblhawyd i raddau helaeth fwy na thebyg erbyn 1311. Gyda dyfodiad de Lacy, daeth poblogaeth sylweddol o fewnfudwyr o Loegr, gan ddisodli'r Cymry a oedd yn ddeiliaid tir mewn cyfres o drosglwyddiadau tir.⁵

Gofynnodd John Williams, a oedd yn ysgrifennu yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, tybed a oedd y dref y tu hwnt i'r muriau wedi'i hadeiladu gan fasnachwyr estron (y Cymry, nid yr anheddwyr Seisnig o fewn y muriau) yn ymgasglu er diogelwch gerllaw'r muriau.⁶ Er y cydnabyddir bellach bod yr anheddiad allanol bron yn sicr yn rhan o dref wreiddiol de Lacy, a anheddwyd gan boblogaeth

Seisnig, ni wyddom ble y gallai unrhyw gadarnle Cymreig cynharach ac anheddiad cysylltiedig fod wedi'u lleoli. Mae rhai awduron wedi tybio bod y castell a adeiladwyd ar ddiwedd y drydedd ganrif ar ddeg wedi'i adeiladu'n uniongyrchol ar safle castell cynharach: nododd John Evans, yn ysgrifennu yn 1812, fod Henry de Lacy, yn ôl y sôn, wedi codi castell ac wedi troi pentref gerllaw yn dref gaerog,⁷ ond nodir hefyd, yn ôl traddodiad, fod caer gynharach wedi'i lleoli ar frigiad creigiog y tu ôl i'r hyn a adwaenir bellach fel Crown Square. Nid oes unrhyw dystiolaeth bendant o hyn, ond mae'n bosibl bod y patrwm anhrefnus o leiniau yn ardal Stryd Fawr — sy'n wahanol iawn i'r cynlluniau ffurfiol a gysylltir fel arfer â threfi â chestyll o gyfnod goresgyniad Edward I — yn safle anheddiad cynharach.

Ni waeth ble'r oedd yr anheddiad Cymreig cynharach, roedd yn amlwg yn lle pwysig. Roedd gan Llywelyn Fawr gartref brenhinol neu lys yma yn 1230, ac roedd gan Dafydd ap Gruffydd neuadd, gyda siambr a chapel ac atodion eraill, a oedd yn gallu gwrthsefyll ymosodiad — am gyfnod o leiaf — yn 1282. Mae enw Cymraeg y dref — Dinbych — yn deillio o'r geiriau 'dinas fechan'.⁸

Ceir dystiolaeth ddogfennol dda o drefn y dref a sefydlwyd gan de Lacy ar ddiwedd y drydedd



*Y dref gaerog, fel y
darluniwyd gan John
Speed yn 1610 (Llyfrgell
Genedlaethol Cymru).*

ganrif ar ddeg. Roedd y siar ter gyntaf yn 1285 yn rhestru 63 o fwrdeisiaid, yr oedd pob un ohonynt yn dal un bwrtais yn y dref. Roeddent hefyd yn dal talarau y tu hwnt iddi. Dim ond 45 o fwrdeisiaid a restrwyd mewn siarter ddiweddarach (1290) sydd hefyd yn cyfeirio at dalarau y tu hwnt i'r dref, ynghyd â sôn am furiau am y tro cyntaf, a'r ffaith bod bwrdeisi eisoes yn ymledu i lawr y llethrau gogleddol y tu hwnt i'r muriau. Erbyn hyn, roedd gan yr ardal allanol tua 183 o fwrdeisi, o gymharu â dim ond 52 y tu mewn i'r muriau. Mae arolwg a gynhaliwyd yn 1334 yn cyfeirio at y bwrdeisi o fewn y muriau, a *villa mercatoria*, gan nodi'n glir am y tro cyntaf bod dwy ran i'r dref a bod gweithgarwch masnachol wedi'i ganolbwyntio yn un ohonynt. Roedd yr ardal o fewn y muriau yn 9.5 erw (3.8 hectar), o gymharu â 57 erw (23.1 hectar) y tu hwnt i'r muriau. Mae cyfrifon ariannol 1372 yn cofnodi symiau o 6s 3d o'r 79 o fwrdeisi o fewn y muriau, a 29s 11d o'r bwrdeisi allanol. Os mai ceiniog y flwyddyn oedd y taliad safonol, yna mae'r swm sylweddol o 29s 11d yn cyfateb i gymaint â 359 o fwrdeisi y tu hwnt i'r muriau. Ni waeth beth oedd yr union ffigurau, y gwahaniaeth amlwg rhwng gwerth yr ardal o fewn y muriau a'r ardal y tu hwnt iddynt yw'r arwydd cliraf o leoliad canol y dref, hyd yn oed ar y dyddiad cymharol gynnar hwn.⁹

'Old things approaching to the resemblance of streets are to be met with in Tower Lane, Exchequer Hill and Castle Lane, irregular rows of cottages, in all some forty-six inhabitations' (John Williams, 1856).¹⁰ Mae trefniant ffisegol y dref ganoloesol yn llawer llai clir. O fewn y muriau, gwelwyd hyd at 79 o fwrdeisi ar un adeg. Fodd bynnag, erbyn dechrau'r ail ganrif ar bymtheg, dim ond un stryd a ddangosir yn anffurfiol ar fap John Speed, sy'n cyfateb i Tower Hill. Er gwaethaf y darlun a grëwyd gan John Williams yn 1856, nid oes unrhyw dystiolaeth gadarn o strwythur amlwg o ran lleiniau ar fap 1610, nac Argraffiad Cyntaf y map Arolwg Ordnans yn 1875. Yn 1914, nododd CBHC adeiledd o'r bedwaredd ganrif ar ddeg yn The Old Castle Arms ar Castle Hill, ond mae'r rhan fwyaf o'r adeiladau eraill yn y dref gaerog yn dyddio o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.¹¹

Fel y gwelwyd, mae'r cofnod dogfennol yn dangos bod y nifer fwyaf o ddaliadau o bell ffordd wedi'u lleoli y tu hwnt i furiau'r dref o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar ddeg. Ond ymhle yr oeddent? Y cofnod cyntaf sy'n rhoi gwybodaeth fwy manwl yw rhôl rent o ddiwedd y bymthegfed ganrif, sy'n rhestru 65 o fwrdeisi o fewn y muriau, a 276 o fwrdeisi y tu hwnt iddynt. O'r 276 o fwrdeisi, roedd 147.5 ohonynt ar Stryd Fawr, 40 ar

Lôn Sowter (Bridge Street yn ddiweddarach), 35 a hanner ar Lôn Parc, a 34 ar Love Lane. Mae'r nifer uchel o fwrdeisi ar Stryd Fawr yn awgrymu bod y dref eisoes yn ymledu rhywfaint i lawr Stryd y Dyffryn, fel y cafodd ei hadnabod yn ddiweddarach, erbyn y dyddiad hwn.¹²

Felly, erbyn diwedd y bymthegfed ganrif, roedd Dinbych yn dref sylweddol, er gwaethaf y difrod a achoswyd iddi yn ystod gwrthryfel Owain Glyndŵr yn 1400, a chan Siasber Tudur yn 1468. Rhaid aros can mlynedd arall i weld darlun clir o olwg y dref, ond roedd ei siâp a'i ffurf gyffredinol eisoes i'w gweld.


Gwlad a Thref

O dan Henry de Lacy, roedd Dinbych yn ganolbwynt arglwyddiaeth helaeth, yn seiliedig ar dreftadaeth gynharach tywysogion Cymru. Roedd yr anheddiad yn manteisio ar leoliad strategol o ran y porfeydd ucheldirol ar Fynydd Hiraethog, a oedd eisoes yn cael ei ddefnyddio at ddiben ffermio bugeiliol o dan dywysogion Cymru. Rhoddodd yr arglwyddiaeth yr adnoddau i gynnal y rhaglen adeiladu ar gyfer y castell a'r dref, ac roedd eiddo sylweddol de Lacy ei hun yn cynnwys

maenor gyda dau blasty, beudy, colomendy, tir demên a phyllau pysgod, yn ogystal â thri pharc.¹³ Roedd de Lacy yn stocio parc ceirw yn 1284, a nodir un ohonynt yn glir ar fap John Speed dyddiedig 1610, lle nodir mur cryf y tu ôl i ochr de-ddwyreiniol Lôn Parc. Ni ddatblygwyd y tir hwn tan i Ysgol Howell gael ei lleoli yno yn 1858. Mae'r Argraffiad Cyntaf o'r map Arolwg Ordnans hefyd yn dangos arglawdd sylweddol ar dir i'r dwyrain o Dŵr y Coblyn, a allai fod yn gysylltiedig â pharc cynnar. Mae'r castell yn dal i edrych dros gefn gwlad agored i'r de.

Gyda dyfodiad de Lacy gwelwyd amryw bartion eraill. Yn ogystal â chael bwrdeisi penodol yn y dref, rhoddwyd daliadau gwledig i'r pwysicaf ohonynt o fewn yr arglwyddiaeth. Roedd Plas Chambres a Phlas Heaton yn eiddo i deuluoedd a gyrhaeddodd yng nghwmni de Lacy ac a ddaeth yn amlwg yn y sir a'r dref. Daeth teulu'r Pigots yn amlwg yn Dinbych ar adeg de Lacy hefyd. Anfarwolwyd enw'r teulu ym Mhlas Pigot, a ddisodlodd dŷ hynafol a ddmchwelwyd ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn ôl y sôn. Roedd Galch Hill, plasty a ddaeth yn eiddo i gangen o deulu'r Myddleton yn ddiweddarach, yn eiddo o fewn daliad gwreiddiol de Lacy, ac roedd y Salusburys yn byw yn Llewenni yn y cyfnod canoloesol. Felly, nid oedd yr aneddiadau wedi'u

Parc ceirw ar gyrion y dref, fel y darluniwyd gan John Speed yn 1610 (Llyfrgell Genedlaethol Cymru).





cyfyngu i'r dref ei hun. Roedd y daliadau a sefydlwyd yng nghefn gwlad yn rhoi'r sylfaen economaidd ar gyfer yr eiddo trefol. Yn wir, gwelwyd llawer o'r teuluoedd a oedd yn byw yn y plastai gwledig hyn yn adeiladu eiddo sylweddol yn y dref hefyd cryn dipyn yn ddiweddarach. 'The vicinage of Denbigh is ornamented and enriched by many handsome seats and mansions possessed by opulent individuals', fel y nodwyd yn 1828.¹⁴

Rhoddyd dyraniadau tir i'r bwrdeisi yn y dref ganoloesol y tu hwnt i'w ffiniau, ac roedd rhannau eang o'r dirwedd — yn cynnwys tir pori agored i'r gorllewin, doldiroedd cyffredin i'r gogledd (y Green, Dinbych), tir â'r i'r dwyrain, a pharc hela'r arglwydd i'r de — yn ffurfio uned economaidd gydlynol. I'r dwyrain o'r dref, ceir olion posibl y system caeau agored sy'n goroesi drwy gyfrwng patrwm nodedig o ffiniau caeau y tu hwnt i'r ardal adeiledig, ac ambell linell ffordd y tu mewn iddi.

Pan sefydlwyd y dref ar ddiwedd y drydedd ganrif ar ddeg, roedd eglwys eisoes wedi'i lleoli'n agos at Ddinbych — eglwys St Marcella yn yr Eglwys Wen — ac er i eglwys gael ei hadeiladu o fewn y dref gaerog (Sant Hilary), ni fu byth yn eglwys blwyf. Roedd y fynachlog, serch hynny, yn sefydliad newydd a fu'n gysylltiedig â sefydlu'r dref, ac fe'i lleolwyd ychydig y tu hwnt iddi. Fe'i sefydlwyd ar ddiwedd y drydedd ganrif ar ddeg, ond nid oes cyfrif penodol am ei tharddiad ac ymddengys nad oes sail i'r traddodiad iddi gael ei sefydlu gan

aelod o deulu'r Salusbury. John de Sunimore yw'r sylfaenydd mwyaf tebygol. Ar adeg y Diwygiad Protestannaidd, dim ond nifer fach o ddaliadau tir yr oedd y fynachlog yn berchen arnynt, gan gynnwys eiddo o fewn y dref ar Love Lane, Pole Flatt a'r stryd sy'n arwain at y farchnad (Stryd y Dyffryn yn ôl pob tebyg), a Phwll y Grawys.

O rai mannau ffafriol, mae lleoliad gwledig Dinbych yn amlwg iawn o hyd.

Y Dadeni: Dinbych ar Ddiwedd yr Unfed Ganrif ar Bymtheg

*'This fine town, being encompassed well nigh about with very fair parts, and standing at the entrance of an exceeding pleasant valley, aboundeth plentifully with all things that are necessary to the use of man... it is a great market town, famous and much frequented with wares and people from all parts of north Wales.'*¹⁵

Yn dilyn y Ddeddf Uno yn 1536, sefydlwyd Dinbych yn un o bedair prifddinas weinyddol yng Nghymru, a oedd yn arwydd o'i statws yn ystod y cyfnod hwnnw, ac yn sbardun i ddatblygiad pellach. Yn 1563, cychwynnwyd ar bennod newydd yn ffyniant y dref pan roddwyd y castell ac arglwyddiaeth Dinbych i Robert Dudley, Iarll Caerlŷr, yn rhodd gan y Frenhines Elisabeth I. Am gyfnod, roedd Iarll



Neuadd y sir, a adeiladwyd yn wreiddiol gan Iarll Caerlŷr yn 1572 (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Caerlŷr yn un o'r dynion mwyaf pwerus yn y deyrnas, a cheisiodd gryfhau Dinbych, sef canolfan ei arglwyddiaeth. Mae dau brosiect adeiladu mawr sydd wedi goroesi yn dyst i'w uchelgeisiau: neuadd y sir, ac Eglwys Iarll Caerlŷr. Adeiladwyd y cyntaf yn 1572 i wasanaethu fel neuadd y dref newydd gyda siambr i'r cyngor a siambr cyfiawnder wedi'u lleoli uwchlaw neuadd farchnad golofnog. Gellir gweld y trefniant gwreiddiol o hyd, ac eithrio'r addasiadau a wnaethpwyd yn ddiweddarach. Dechreuodd y

gwaith o adeiladu'r eglwys newydd, y bwriadwyd iddi fod yn eglwys gadeiriol yn ôl pob tebyg (gan ddisodli Llanelwly), yn 1578. Fodd bynnag, ni pharhaodd diddordeb Iarll Caerlŷr yn y dref yn hir ac roedd yn amhoblogaidd iawn yno: ataliwyd y gwaith ar yr eglwys yn 1588 a chafodd yr adeilad byth ei orffen.¹⁶

Mae un prosiect adeiladu dinesig sylweddol arall sy'n dyddio, fwy na thebyg, o'r cyfnod hwn:



credir bod y golofnres ar y bloc o eiddo ar ochr ogleddol Stryd Fawr (a elwir yn The Piazza neu'r Bylcliau) yn deillio o oes Elisabeth (er iddi gael ei hadnewyddu i raddau helaeth). Mae hon yn un o nodweddion diddorol (a syfrdanol) dylunio trefol, gan ei bod yn uno adeiladau â hanes adeiladu annibynnol. Mae'r colofnau Tysgaidd yn debyg iawn i'r rheini a welir ar neuadd y sir, ac mae'n bosibl eu bod yn rhan o'r un rhaglen i wella'r dref.

Er gwaethaf dylanwad personol byrhoedlog larll Caerlŷr, mae digon o dystiolaeth i awgrymu bod canol i ddiwedd yr unfed ganrif ar bymtheg wedi bod yn gyfnod o ffyniant mwy cyffredinol yn y dref. Gyda rhai eithriadau pwysig, mae'r rhan fwyaf o'r adeiladau cynharaf sydd wedi goroesi yn y dref yn deillio o'r cyfnod hwn. O'r rhain, gellir nodi dau yn benodol: Plas Coch (30 Stryd Fawr) a Grove House (y Gelli) ar Stryd y Dyffryn. Mae'n debygol mai tŷ trefol Richard Clough (m.1570), mentrwr

Y Bylcliau: er bod llawer o'r colofnau wedi'u hailadeiladu, maent yn dyddio o ddiwedd yr unfed ganrif ar bymtheg (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Bryn y Ffynnon: tŷ trefol o ddiwedd yr unfed ganrif ar bymtheg sy'n cuddio y tu ôl i ddrychiad Sioraidd (Hawlfraint y Goron: CBHC).

masnachol a sylfaenydd y Gyfnewidfa Frenhinol yn Llundain, oedd Plas Coch. Gwyddys fod Clough wedi adeiladu Bach y Graig a Phlas Clough rhwng 1567 a 1568 a gallai fod wedi adeiladu'r tŷ hwn tua'r un adeg. Adeiladwyd y tri o frics a fewnforiwyd o Fflandrys, ac roedd ganddynt nodweddion arddulliadol tebyg cryf. Roedd Grove House (y Gelli) ar Stryd y Dyffryn hefyd yn eiddo i deulu'r Clough. Hugh Clough, brawd Richard, oedd y preswlydd cyntaf ac, yn yr un modd â'r tri thŷ a adeiladwyd gan Richard, fe'i hadeiladwyd o frics a fewnforiwyd o Antwerp. Mae'r ddau dŷ hyn ymhlith y tai cyntaf a adeiladwyd o frics yng Nghymru.

Ceir o leiaf un tŷ trefol uchelgeisiol arall sy'n deillio o'r cyfnod hwn: mae Bryn y Ffynnon, sy'n dŷ trefol tri llawr a adeiladwyd yn gyfan gwbl o garreg, wedi'i ddyddio drwy ddendrocronoleg i 1581.

Tai cyfnod y Dadeni yw'r rhain yn eu hanfod. Maent yn uchelgeisiol o ran eu maint a'u dyluniad, ac fe'u hadeiladwyd gan unigolion digon cefnog. Fodd bynnag, ceir tystiolaeth hefyd bod rhaglen adeiladu fwy cyffredinol ar waith yn ystod y cyfnod hwn, sy'n awgrymu ei fod yn adeg o ffyniant ac optimistaeth gyffredinol.



Mae 2 Sgwâr y Neuadd yn dŷ sy'n dyddio o'r ail ganrif ar bymtheg er bod y ffasâd yn dyddio o'r ddeunawfed ganrif (Hawlfraint y Goron: CBHC).

'Large, populous and well-built': Dinbych yn y Ddeunawfed Ganrif ¹⁷


'The present town is neat and clean, and has many genteel houses and much good society in it.' ¹⁸

Parhaodd Dinbych i ffynnu fel tref sirol a thref farchnad drwy gydol yr ail ganrif ar bymtheg, ac mae sawl adeilad cain sy'n

deillio o'r cyfnod hwn ynghyd â graddau'r newidiadau a wnaed i adeiladau cynharach yn dyst i'w ffyniant. Ymhlith yr enghreifftiau cain mae 2 Sgwâr y Neuadd, sef tŷ trefol o ddiwedd yr ail ganrif ar bymtheg yn ei hanfod, a Grove House (y Gelli) a'i ardd, a ail-fodelwyd yn 1693 i Thomas Shaw, Rhysyfwr Dinbych. Ymhlith y tai trefol uchelgeisiol eraill sy'n deillio o'r cyfnod mae Gwesty'r Bull, a 24 Stryd y Dyffryn, y mae'r ddau ohonynt yn enghreifftiau o waith cynllunio arloesol sy'n cynnwys trefniant deulawr â simneiau mewnol.

Mae 24 Stryd y Dyffryn yn dŷ trefol sy'n dyddio o ddiwedd yr ail ganrif ar bymtheg ac sydd â chynllun dyfnder dwbl anarferol (Hawlfraint y Goron: CBHC).





0 Metrau 5

--- Manylion cuddiedig
 - - - Trawst nenfwd
 - - - wedi'i ail-greu

24 Stryd y Dyffryn, Dinbych

NPRN401968, SJ05396618.

Cyfnod 1

Cyfnod 2



Mae Grove Place yn un o gyfres o dai bonedd sy'n dyddio o'r ddeunawfed ganrif ar Stryd y Dyffryn (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Fodd bynnag, yn ystod y ddeunawfed ganrif yr atgyfnerthwyd rôl Dinbych fel canolfan economaidd a chymdeithasol bwysig, ac un o'r nodweddion a etifeddwyd o'r cyfnod hwn yw'r gyfres o dai bonedd, a welir yn bennaf ar (ond nid yn gwbl gyfyngedig i) Stryd y Dyffryn. Roedd prif breswylfeydd perchnogion y tai hyn fwy na thebyg wedi'u lleoli

yng nghefn gwlad y tu hwnt i'r dref. Ymhlith yr enghreifftiau mae'r Heaton o Blas Heaton, y mae eu tŷ trefol yn goroesi fel 26–32 Stryd y Dyffryn, 42 Stryd y Dyffryn, tŷ trefol teulu'r Mostyn, 47 Stryd y Dyffryn, a allai fod wedi bod yn gartref i deulu'r Griffith o Garn, Henllan, a 52 Stryd y Dyffryn (Grove Place) a oedd yn eiddo i deulu'r Salusbury.

Masnach

'Situating upon a rocke, the pretty town of Denbigh, where is one of the greatest markettes within the marches of Wales.' ¹⁹

Ymddengys fod Dinbych wedi ffynnu'n bennaf fel tref farchnad. Yn y blynyddoedd cynnar, sicrhawyd ei rôl allweddol fel canolfan farchnad gan fesurau penodol: rhoi breintiau i'r bwrdeisi, ei gwneud yn ofynnol i boblogaeth cefn gwlad fasnachu yno, codi tâl stondin (ffi am stondinau marchnad) a chodi tollau ar weithgareddau masnachu (yr oedd y bwrdeisi eu hunain wedi'u heithrio rhagddynt). Yn dilyn siar ter a basiwyd yn 1379, sefydlwyd urdd y masnachwyr, gan atgyfnerthu'r monopoli masnachol. ²⁰

Ymhle y gwelwyd yr holl weithgarwch masnachol hyn? Stryd Fawr yw craidd y farchnad wreiddiol ond roedd y farchnad honno'n fwy o faint ar un adeg. Gellir gweld bod y bloc o adeiladau sy'n rhedeg o ogledd Stryd Fawr i Lôn Gefn yn meddu ar nodweddion sy'n awgrymu iddynt gael eu codi ar yr hyn a oedd ar un adeg yn fan agored. Roedd yr ardal hon, ynghyd â Crown Square a Sgwâr y Neuadd (cyn i neuadd y sir gael ei hadeiladu yn 1567), yn brif ardal fasnachu sylweddol. Hyd yn oed ar ddechrau'r unfed ganrif ar bymtheg (pan oedd rhywfaint o dresmasu eisoes wedi digwydd fwy na thebyg) cafodd ei

disgrifio gan Leland fel a ganlyn: 'fayre and large,... pavid but of late years, the confluence to the market on Tewesday is exceeding great'. ²¹


Gyda threigl amser (ac efallai o'r cychwyn cyntaf), sefydlwyd marchnadoedd mewn mannau eraill yn y dref. Symudwyd ffair geffylau o Stryd Fawr i ward isaf y dref 'about the place called the lower cross' (gwaelod Stryd y Dyffryn) yn ystod yr ail ganrif ar



Chwith: Arwyddlun tref Dinbych ar neuadd y dref sy'n dyddio o 1915–1916 (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Isod: Sgwâr y farchnad, tua 1876 (Swyddfa Gofnodion Sir Ddinbych).





bymtheg.²² Yn draddodiadol, cynhaliwyd marchnad anifeiliaid ar Bridge Street, hyd nes i'r Smithfield gael ei adeiladu ar ochr orllewinol y dref yn 1895. Adwaenwyd Mount Pleasant fel Marchnad Moch yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Mae'n bur debyg mai neuadd sir Iarll Caerlŷr, a adeiladwyd yn 1572, oedd yr adeilad marchnad dan do cyntaf yn y dref. Yn 1848, adeiladwyd neuadd farchnad fawr, a gynlluniwyd gan Thomas Fulljames, rhwng Crown Square a Chapel Place. Fe'i disodlwyd yn 1915–16 gan neuadd y dref bresennol, a dim ond rhan fach ohoni — y farchnad fenyn wreiddiol — sydd wedi goroesi. Fe'i defnyddiwyd yn gyntaf fel bragdy ac mae bellach yn rhan o'r coleg. Ni wyddys pryd y gwelwyd y siopau dan do cyntaf yn Dinbych, ond ceir rhywfaint o dystiolaeth o'u bodolaeth erbyn dechrau'r unfed ganrif ar bymtheg: mae gan 33 Stryd Fawr (Siop Clwyd) ran loriog i'r blaen a ddehonglwyd fel siop gyda siambr uwchlaw. Y tu ôl i'r siop a'r siambr roedd neuadd agored, gyda bloc parlwr (neu hyd yn oed siop arall) y tu ôl iddi eto.

Anaml iawn y gwelir enghreifftiau o'r fath, ac mae'n dystiolaeth bwysig o ddatblygiad cynnar siopau a adeiladwyd i'r pwrpas hwnnw. Nodwyd enghreifftiau eraill hefyd — er enghraifft, Y Llew Aur, a Fferyllfa Royle's, 22 Stryd Fawr — ac efallai y caiff rhagor eu datgelu maes o law. Fodd bynnag, dim ond o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ymlaen y mae amrywiaeth eang o adeiladau masnachol wedi goroesi: ceir rhywfaint o bensaerniaeth fasnachol dda iawn yn y dref, yn enwedig o ganol i ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ymhlith yr enghreifftiau da mae 13 Crown Square, 26 Stryd Fawr (Y Co-op) o tua 1875, y bloc cain ar gornel Stryd y Dyffryn a Crown Square, a gynlluniwyd gan Richard Lloyd Williams fel siop fwydydd â warws yn 1887, a'r Swyddfa Bost, a oedd yn cynnwys dwy siop yn wreiddiol gyda rhesi warysau neu weithgynhyrchu y tu ôl iddynt, a adeiladwyd yn tua 1890. Ceir llawer mwy o enghreifftiau.

Mae'r siopau a welir heddiw wedi'u lleoli o hyd yn ardal fasnachu wreiddiol y dref. Yn sgil y parhad hwn mewn swyddogaeth, daeth pwysau i newid — addasu eiddo presennol, neu ei ailddatblygu'n gyfan gwbl. Mae'n destun gofid bod y broses hon wedi parhau hyd yn ddiweddar ac mae rhai adeiladau cynnar pwysig wedi'u colli.

Roedd economi amaethyddol yn cynnal masnach Dinbych, yn seiliedig ar ffermio bugeiliol yn yr



Cyferbyn: Mae 33 Stryd Fawr yn enghraifft bwysig o siop sy'n dyddio o ddechrau'r unfed ganrif ar bymtheg (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Chwith: Y tu ôl i'w ffasâd Sioraid, mae 22 Stryd Fawr yn siop sy'n dyddio o'r ail ganrif ar bymtheg (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Ffasâd crwn 13 Crown Square: adeilad masnachol soffistigedig sy'n dyddio o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Arddull a deunyddiau crand adeilad masnachol amlwg o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg (Hawlfraint y Goron: CBHC).



ucheldiroedd. Deilliodd llawer o grefftau o'r ffynhonnell hon, crefftau yn seiliedig ar waith lledr yn benodol, y gwelwyd cryn dystiolaeth ohono erbyn diwedd y bymthegfed ganrif. Erbyn 1783, 'Denbigh's manufactures in shoes and gloves are very considerable, and great quantities are annually sent to London, to the great warehouses of the capital, and for the purposes of exportation'.²³ Roedd gweithfeydd wedi'u lleoli i'r gogledd- orllewin o'r dref, yn agos at y nant y nodir ei chwrs gan Ffynnon Barcer. Roedd y nant hon, ar un adeg, yn elfen bwysig o economi'r dref. Roedd wedi bwydo'r pwll pysgod (neu bwll y felin) ym Mhwll y Grawys, ac roedd yn ffynhonnell ddŵr ar gyfer cyfres o ffatrioedd. Roedd y gwerthwr crwyn ar Bridge Street yn rhannu llain o dir gyda Bryn y Ffynnon, a chafodd ei ddymchwel pan adeiladwyd y sefydliad eglwysig yn 1915. Mae pob tanerdy ar ochr ogleddol y dref wedi'i ddymchwel, ac ychydig iawn o dystiolaeth a welir bellach o'r diwydiant hwn neu unrhyw ddiwydiant arall yn y dref. Un o'r eithriadau prin yw 2 Lôn Swan, yr ymddengys iddo gael ei adeiladu yng nghanol y bedwaredd ganrif ar

Uchod: Roedd yr adeilad hwn ar Lôn Swan yn gartref i warws a gweithdai yn ôl pob tebyg (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Mae adeiladau Gwasg Gee yn enghraifft o gyfdeilad diwydiannol bach mewn cyflwr arbennig o dda (CBHC/© Cyngor Sir Ddinbych).

bymtheg fel warws a gweithdai. Mae adeiladau annomestig eraill wedi goroesi ar Rosemary Lane, Lôn Crown a Lôn Swan/Lôn Abram.

Wrth gwrs, ceir un cyfadeilad diwydiannol pwysig iawn yn y dref: gwaith argraffu Gwasg Gee a sefydlwyd ar Lôn Swan yn 1808. Mae'r adeiladau yn enghraifft anarferol o fath o adeilad diwydiannol bach, a chwaraeai'r busnes ran bwysig ym mywyd diwylliannol Cymru yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Gwasg Gee yw gwasg annibynnol hynaf Cymru ac roedd cynnyrch y busnes yn cynnwys gwyddoniadur Cymraeg mewn deg cyfrol a'r Faner, papur newydd a argraffwyd ddwywaith yr wythnos. Roedd Thomas Gee yr ieuaf, a fu'n rhedeg y busnes o 1845, yn ffigwr pwysig iawn ym mywyd diwylliannol a gwleidyddol Cymru.

Ond, os oes prinder tystiolaeth uniongyrchol o weithgynhyrchu yn Dinbych, does dim prinder o dystiolaeth anuniongyrchol. Yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, daeth strydoedd cul yr hen dref yn llawn bythynnod bach: 'there are many cross and parallel lanes and alleys, with courts, yards and back

lanes', dywedodd John Williams yn 1856.²⁴ Er bod llawer o'r rhain wedi'u colli, mae llawer o resi o fythynnod bach wedi goroesi o hyd ar Riw'r Bigwn, Lôn Swan, Lôn y Post, Love Lane, a Stryd Henllan. Fe'u hadeiladwyd mewn rhesi bach a gallai eu cynllun fod wedi dilyn strwythur lleiniau cynharach y dref wrth i berchnogion unigol ddatblygu eu darn hwy o dir.

Y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg: Datblygiadau Dinesig a Diwylliannol

*'The numerous first class private residences, banks, hotels, retail establishments etc at once tell the visitor that Denbigh is one of the most important market towns in North Wales.'*²⁵

Os oedd Dinbych yn ganolfan fasnachol ffyniannus, cafodd ei statws fel tref sirol ffyniannus ei atgyfnerthu ymhellach pan sefydlwyd cyfres o sefydliadau pwysig yn ystod y bedwaredd ganrif

Y nifer fawr o adeiladau yn Seilam Gogledd Cymru — i bob pwrpas ystad fach o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a phrif gyflogwr lleol (Hawlfraint y Goron: CBHC).







Cyferbyn: Capel Lôn Swan — mae ei faint a'i uchelgais bensaernïol yn dyst i statws y dref ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Chwith: Roedd Dinbych yn dal i gwmpasu rhan helaeth o dir i'r gogledd tan ymhell i mewn i'r ugeinfed ganrif (Cerdyn post o Ddinbych o tua 1906, Swyddfa Gofnodion Sir Ddinbych).

ar bymtheg. Y cyntaf o'r rhain oedd Clafdy Sir Ddinbych a agorwyd yn 1813. Yn bwysicach fyth roedd Seilam Gogledd Cymru dyddiedig 1842–48. A hithau wedi'i lleoli y tu hwnt i'r dref, roedd yn gweithredu bron â bod fel rhyw fath o ystad, gyda'i fferm ei hun. Fel prif gyflogwr (ar ei hanterth, roedd yn cyflogi bron mil o staff), cafodd effaith sylweddol ar economi a chymdeithas y dref yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Mae gan y dref hefyd gyfres dda o adeiladau ysgol, sy'n nodi agweddau gwahanol ar addysg yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ymhlith y rhain mae'r Ysgol Brydeinig ar Love Lane dyddiedig 1843–44, hen Ysgol Blue Coat ym Mhwll y Grawys dyddiedig 1846–47, yr hen Eglwys ac Ysgol Babyddol ar Dan y Gwalia dyddiedig 1863, ac uwchlaw popeth, Ysgol Howell, a ddechreuwyd yn 1858–59.

Mae capeli yn fesur arall o ffyniant diwylliannol tref. Gwelir enghreifftiau da ar strydoedd Dinbych. Ymhlith y rhai mwyaf nodedig mae Capel Mawr a Chapel Lôn Swan. Adeiladwyd y ddau am y tro cyntaf ar ddechrau'r ddeunawfed ganrif, ac fe'u hailadeiladwyd yn 1880.


Twf Trefol: Dechrau'r Ugeinfed Ganrif

Dengys cymhariaeth o fap John Speed dyddiedig 1610 a map y degwm dyddiedig 1840 fod maint y dref wedi aros yn gymharol gyson rhwng

dechrau'r ail ganrif ar bymtheg a dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Wrth gwrs, gwelwyd newid sylweddol o fewn ei ffiniau rhwng y ddwy ganrif hyn — roedd y broses fywiog o adeiladu ac ailadeiladu a oedd ar waith yn golygu y byddai ymddangosiad y dref yn 1840 wedi bod yn wahanol iawn i'w hymddangosiad yn 1610. I ryw raddau, gwnaeth y crynodiad o ddatblygiad o fewn y ffiniau helaeth a oedd eisoes wedi digwydd gyfyngu ar effaith newid yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ni chafodd hyd yn oed dyfodiad y rheilffordd yn 1858 effaith sylweddol ar siâp cyffredinol y dref i gychwyn. Mae map yr Arolwg Ordnans o 1875 yn dangos datblygiad cyfyngedig gerllaw'r rheilffordd ar Ruthin Road a St Asaph Road; ar ôl hynny, adeiladwyd tai teras ar raddfa fach ar y lleiniau a oedd yn bodoli eisoes yn agos at waelod Stryd y Dyffryn, gyda rhai preswylfeydd mwy sylweddol ymhellach allan o'r dref.

Dim ond yn ystod yr ugeinfed ganrif y gwelwyd y dref yn ymledu y tu hwnt i'w ffiniau hanesyddol mewn ffordd ddramatig. Gan ddechrau yn y 1920au, ymledodd y dref yn gyntaf rhwng Ffordd y Ffair a Lôn Llewelyn, ar hyd Ruthin Road a St Asaph Road, cyn ymledu ymhellach i hen dir amaethyddol i'r dwyrain, de a gorllewin. Ar ôl tua 1970, ymledodd y dref hyd yn oed ymhellach i'r gogledd a'r gogledd-ddwyrain, a chafodd y llethrau yn union i'r gogledd o'r dref, a oedd wedi parhau'n agored hyd yr adeg honno, eu hamlyncu gan ddatblygiadau tai.

Tirwedd Hanesyddol



Mae'r olygfa hon o Ddinbych o'r gogledd yn dangos ei lleoliad dramatig ar ochr bryn (Denbigh, 1823, tynnwyd gan Capten Batty, engrafwyd gan Edward Finden, Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

*'Nothing, perhaps, could better show the altered condition of society than to contemplate, at the same time, the narrow limits marked by the boundary of those crumbling walls, and the cheerful street which now descends the hill in perfect security.'*²⁶

A'r castell yn goron arni, mae Dinbych yn dref ddramatig wedi'i lleoli ar ben bryn; prin yw'r enghreifftiau a welir o hynny yng Nghymru. Roedd tirwedd y safle wedi arwain at rai heriau diddorol, ac mae'n elfen bwysig sy'n llunio'r treflun. Mae'r dirwedd naturiol (a wellwyd mewn rhai ardaloedd gan waith chwarela) yn cynnwys cyfres o wahaniadau sydyn sy'n cyflwyno haenau i strwythur y dref. Ymhlith rhai o'r prif wahaniadau mae'r llethr serth o dan furiau'r dref, y tir sy'n disgyn i fwrdd unwaith eto islaw Love Lane i'r gorllewin, ac islaw Sgwâr y Neuadd a Crown Square i'r dwyrain, lle mae'n mynd i lawr unwaith eto islaw Lôn Abram.

I'r gogledd-orllewin, ceir toriad serth arall yn y llethr yn disgyn i lawr i Ffynnon Barcer, sy'n nodi gwaelod dyffryn cul. O nifer o fannau ffafriol, mae'r dirwedd hon yn golygu y gellir gweld y gefnwlod o amgylch y dref, er bod y golygfeydd pellennig gorau o'r dref yn cael eu colli o ganlyniad i'r datblygiadau tai helaeth i'r gogledd.

Un o nodweddion trawiadol eraill tref fodern Dinbych yw ei maint. Yn wahanol i drefi caerog eraill gogledd Cymru, nid oedd Dinbych wedi'i chyfyngu gan ei muriau, a dim ond un elfen o'r dref gynnar oedd yr ardal oddi mewn iddynt. Erbyn dechrau'r ail ganrif ar bymtheg, roedd y dref wedi ymledu o ardal adeiledig Stryd Fawr mewn cynllun ffurfiol i'r dwyrain, ar hyd Stryd y Dyffryn, ac mewn cynllun anffurfiol i'r gorllewin, ar hyd Stryd Henllan. Sefydlwyd estyniad deheuol y dref ar hyd Love Lane yn gynnar iawn yn ôl pob tebyg — efallai hyd yn oed yn fuan ar ôl i'r castell

gael ei adeiladu. Yn sicr, roedd daliadau yn yr ardal hon tuag at ddiwedd y bymthegfed ganrif, a cheir darn o dŷ canoloesol a allai ddyddio o'r bedwaredd ganrif ar ddeg.


O fewn y dref, ceir gwahaniaethau amlwg hefyd o ran patrwm lleiniau a strydoedd. Mae rhan uchaf y dref (o amgylch Stryd Fawr ac i'r gorllewin o Lôn Swan hyd at Bwll y Grawys) yn orlawn gyda phatrwm afreolaidd o strydoedd a lleiniau yn ffurfio strwythur cellog. Yn ôl dogfennau, roedd cymaint â 183 o fwrdeisi yn y dref y tu hwnt i'r muriau erbyn tua 1305. Dim ond ar hyd darn bach o ochr ddeheuol Stryd Fawr y gellir olrhain llinellau nodweddiadol lleiniau bwrdeisi, er bod rhai eraill i'w gweld i'r gogledd o Lôn Gefn, a ddilëwyd pan gliriwyd yr ardal lle y gwelir y maes parcio yn awr. I'r gwrthwyneb, gwelir cynllun mwy eang a rheolaidd ar ffyrdd cyfochrog Stryd y Dyffryn, Lôn Ganol a Lôn Parc. Pam bod gan yr ardaloedd hyn nodweddion mor wahanol? Ai oherwydd bod bwrdeisi ar ddiwedd y drydedd ganrif ar ddeg wedi'u gosod i mewn i strwythur lleiniau cynharach yn rhan uchaf y dref, ond wedi'u gosod ar dir agored i'r dwyrain? Mewn geiriau eraill, a yw strwythur lleiniau tameidiog rhan uchaf y dref yn deillio o anheddiad Cymreig cynharach?

Roedd y farchnad yn rhan hanfodol o dref ganoloesol Dinbych. Cyfeiriwyd at y dref y tu hwnt i'r muriau fel *villa mercatoria* mewn dogfen yn 1334, ac mae'r farchnad yn nodwedd amlwg o'r treflun modern, a ddangosir gan led Stryd Fawr.²⁷ Roedd yn ofod llawer ehangach ar un adeg, ac mae'r bloc o adeiladau rhwng Stryd Fawr a Lôn Gefn yn nodi'r ffaith bod tresmasu cynnar arno. Mae'n debygol i neuadd y sir gael ei hadeiladu ar y farchnad hefyd, a rhaid i ni ddechymgu bod Sgwâr y Neuadd, Crown Square a'r ardal rhwng ochr ddeheuol Stryd Fawr ac ochr ogleddol Lôn Gefn yn un man agored mawr ar un adeg.

Nid yw map Speed dyddiedig 1610 yn cynnwys unrhyw fanylion am strwythur lleiniau rhan uchaf y dref. Yn ardal Stryd y Dyffryn, dangosir rhesi o dai bob ochr i'r stryd, ond cyfres o erddi mawr yn hytrach na lleiniau cul a welir y tu ôl iddynt. Mae Speed yn nodi lleiniau mawr tebyg ar ochr de-ddwyrainiol Lôn Parc. Ni ddatblygwyd y rhan fwyaf o'r rhain tan ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg neu ddechrau'r ugeinfed ganrif. Gellir olrhain rhai o'r ffiniau rhwng y gerddi a nodir gan Speed yn Stryd y Dyffryn hyd heddiw, ac mae'n




Uchod, chwith ac isod: Rhwng Stryd Fawr a Lôn Gefn, mae'r adeiladau'n tresmasu ar yr hyn a fyddai wedi bod yn farchnad agored yn wreiddiol (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Uchod: Elfennau o strwythur gofodol y dref hanesyddol.

Dde: Dinbych yn 1610, fel y darluniwyd gan John Speed (Llyfrgell Genedlaethol Cymru).



bosibl nodi prif dai sy'n dal i fodoli mewn llawer o'r lleiniau hyn (er bod y rhan fwyaf ohonynt yn dyddio o gyfnod hwyrach). Ni wyddom pryd y cafodd yr ardal hon ei gosod: a gafodd yr ardal ei datblygu fel rhan o'r dref y tu hwnt i'r muriau o ddiwedd y drydedd ganrif ar ddeg neu ddechrau'r bedwaredd ganrif ar ddeg, neu a oedd yn ffrwyth ymgyrch cynllunio trefol ddiweddarach, yn yr unfed ganrif ar bymtheg o bosibl? Mae'r cynllun rheolaidd gyda'i grid o dair stryd gyfochrog a lôn groes (Lôn y Post/Peake's Lane) yn nodweddiadol o drefi a gynlluniwyd yn ystod y cyfnod canoloesol. At hynny, mae'r nifer fawr o fwrdeisi a gofnodwyd yn y bedwaredd ganrif ar ddeg a'r bymthegfed ganrif yn ei gwneud yn debygol bod yr ardal hon yn rhan o'r dref ganoloesol, er bod yr elfennau adeiladu cynharaf yn deillio o ddechrau'r unfed ganrif ar bymtheg. A yw'n bosibl bod y lleiniau mwy o faint yma yn cyfateb i'r talarau a ddyrannwyd i'r bwrdeisi cyntaf, ardaloedd o dir na fwriadwyd adeiladu arnynt i gychwyn, ond a gafodd eu datblygu'n gyflym o bosibl wrth i boblogaeth y dref gynyddu?



Os oes i ran uchaf y dref strwythur cellog, yn cynnwys rhai bwrdeisi cul, a bod ardal Stryd y Dyffryn yn cael ei nodweddu gan grid o leiniau ehangach, ceir trydedd elfen i siâp y dref, sef patrwm datblygu llinellol. Mae map Speed yn dangos hyn yn glir o ran Stryd Henllan a Love Lane, yn ogystal â'r llinell sy'n cysylltu Factory Place, Chapel Place a Rhiw'r Bigwn. O'r rhain, dim ond Love Lane oedd yn sicr yn rhan o ddatblygiad y dref yn y cyfnod canoloesol.



Ym mhob rhan o'r dref, arweiniodd y patrwm datblygu yn y cyfnod canoloesol at gyfres o leiniau a ffryntiad amlwg o ran adeiladau. Roedd pob llain, mewn gwirionedd, yn uned economaidd gyda chydberthynas glir rhwng y ffryntiad a'r tir y tu cefn iddo. Dilëwyd y gydberthynas hon dros amser, yn bennaf wrth i leiniau gael eu defnyddio fel unedau datblygu ar gyfer gwaith adeiladu ychwanegol. Mae map yr Arolwg Ordnans yn 1874 yn dangos graddau'r gwaith adeiladu ar y tir y tu cefn, yn enwedig yn ardal Stryd Fawr, ond hefyd yn Lôn y Capel, Lôn y Post, Love Lane a Stryd Henllan. Mae'r rhan fwyaf o'r datblygiad hwn bellach wedi diflannu, ond gwelir strwythur lleiniau da ar ochr ddeheuol Stryd Fawr o hyd, gyda chymysgedd o adeiladau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r eiddo ffrynt — er enghraifft Gwesty'r Bull a hen gyfadeilad y swyddfa bost — a datblygiadau ar wahân — er enghraifft, y tai ar

ochr ogleddol Bull Lane, ac efallai 2–12 Lôn Brombil. Enghraifft dda o ddatblygiad bwrdeisi cynnar yw Fferyllfa Royle, 22 Stryd Fawr, lle y gwelwyd gwaith ailfodelu yn ddiweddarach yn cynnwys ffryntiad siop ac annedd o ddechrau'r ail ganrif ar bymtheg, gyda chegin gyfoes ar wahân neu uned wasanaeth ar draws iard gefn fach.

Mewn mannau eraill, mae enghreifftiau o'r trefniant cynharach, lle'r oedd datblygu'r tir y tu cefn yn ategol i'r eiddo a oedd yn meddiannu'r ffryntiad, bellach yn brin. Ar Lôn y Post, roedd yr hen stablau a'r bragdy yn meddiannu iard gefn

Uchaf: Yr adeiladau a oedd yn gwasanaethu Gwesty'r Bull, ar y llain mawr o dir y tu ôl iddo (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Uchod: Mae'n bosibl bod bythynnod ar Bull Lane wedi'u hadeiladu ar ddiwedd lleiniau a oedd yn rhedeg yn ôl o Stryd Fawr (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Tafarn yr Hawk and Buckle; dyma oedd lleoliad yr hen dalwrn hefyd, tan iddo gael ei symud i Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru, Caerdydd. Mae'n debygol bod yr adeiladau ar ochr ogleddol Lôn Parc yn cynrychioli datblygiad ar gefn y lleiniau a oedd yn bodoli eisoes — proses a oedd

Yr hen stablau a bragdy a oedd yn gysylltiedig â Thafarn yr Hawk and Buckle.



Isod: Llinellau o adeiladau y cyfyngwyd arnynt gan y strwythur lleiniau cynnar ar ochr ddeheuol Stryd Fawr (Hawlfraint y Goron: CBHC).

eisoes wedi cychwyn ar ddechrau'r ail ganrif ar bymtheg, yn ôl map Speed. Mewn rhai ardaloedd, mae'r llinell adeiladu wedi'i dwyn ymlaen, gan dresmasu ar y stryd. Mae lled cyfyngedig rhan uchaf Stryd y Dyffryn yn ganlyniad i'r broses hon: mae gwaith cofnodi gan CBHC wedi nodi sawl enghraifft o adeiladau'n tresmasu, gan gynnwys The Kings Arms a 13–15 Stryd y Dyffryn.

Mae'r cynllun a'r strwythur lleiniau amrywiol yn y dref yn agwedd bwysig ar ei hanes a'i chymeriad sy'n agored i gael ei dileu. Mae gwaith clirio mawr rhwng Lôn Gefn a Factory Place wedi dileu olion cynllun hanesyddol y dref, tra bod datblygiadau ar hyd Lôn Parc wedi dileu'r strwythur lleiniau gwreiddiol mwy agored a ddiffiniwyd yn glir yn y fan hon. Yn y manau hynny lle mae'r strwythur lleiniau hwn wedi goroesi, dylid mynd ati o ddifrif i'w warchod.



Nodweddion Adeiladu

Nodwedd amlycaf Dinbych yw cymysgedd gwych o adeiladau o wahanol gyfnodau, mathau, arddulliau a deunyddiau.

Cronoleg Datblygiad

'It is true that there are many houses of great age still left by the ruthless hand of modern improvement, some of the lath and plaster era, some with fine black oak stair-cases, chimney pieces or wainscottings'.²⁸

Mae gan Ddinbych gronoleg datblygiad eithriadol, gyda dilyniant hir o waith adeiladu. O fewn y dref (ac eithrio'r castell a thŵr Eglwys Sant Hilary), ceir un adeilad sylweddol sy'n dyddio o bosibl o'r cyfnod canoloesol: credir bod 7 Heigad yn un o strwythurau domestig cynharaf y dref. Mae'r muriau talcen o garreg sy'n codi o blinth a dorrrwyd mewn craig wedi goroesi; mae'r muriau ochr wedi'u hailadeiladu, ond mae'n debygol mai muriau ffrâm bren oeddent yn wreiddiol. Ymhlith yr elfennau posibl eraill o'r cyfnod canoloesol mae seleri o dan dafarn Yr Arad, rhifau 15–17 Llain Portland (is-grofft capel Santes Anne), a 13–15 Stryd y Dyffryn o bosibl. Mae'n bosibl y gallai enghreifftiau eraill gael eu datguddio maes o law, a gallai arolwg cynhwysfawr o seleri fod yn addysgiadol. Yn 1914, cofnododd rhestr CBHC ddrws o'r bedwaredd ganrif ar ddeg a thalcen ffrâm nenfforch yn Neuadd Friesland (The Old Castle Arms yn ddiweddarach a Bryn Awelon bellach), ond ni welir fawr ddim nodweddion hanesyddol yma yn awr. Mae'n bosibl hefyd bod y tŷ neuadd ffrâm nenfforch y tu ôl i 13–15 Stryd y Dyffryn wedi'i godi cyn yr unfed ganrif ar bymtheg ond nid yw wedi cael ei ddyddio.

Gyda'r eithriadau pwysig hyn, dim ond o'r unfed ganrif ar bymtheg y mae nifer sylweddol o adeiladau yn dechrau goroesi. Ychydig iawn ohonynt sydd wedi goroesi heb iddynt gael eu newid yn sylweddol, ond un enghraifft bwysig yw 33 Stryd Fawr. Mae ei strwythur, sy'n dyddio o ddechrau'r unfed ganrif ar bymtheg, bron yn gyflawn (dyddiwyd drwy ddendrocronoleg i 1533), ac mae'n un o ddau adeilad yn unig yn y dref lle mae'r gwaith coed yn amlwg o hyd.



Mae'n bosibl mai'r tŷ hwn ar Heigad yw'r strwythur domestig cynharaf yn y dref (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Ffrâm nenfforch a gofnodwyd yng ngefn yr Old Castle Arms (Hawlfraint y Goron: CBHC, 1954).


33 Stryd Fawr sy'n dyddio o 1533 (Hawlfraint y Goron: CBHC).




Gyferbyn: Mae 1 Lôn Parc yn dŷ neuadd o'r unfed ganrif ar bymtheg sydd mewn cyflwr da (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Ymddengys fod Rhif 1 Lôn Parc yn dŷ neuadd cydlynol o ddechrau'r unfed ganrif ar bymtheg hefyd. Roedd yr adeilad hwn bron yn sicr yn adeilad ffrâm bren yn wreiddiol. Mae Bryn y Parc yn adeilad mawr arall sy'n dyddio o'r unfed ganrif ar bymtheg, er bod tân diweddar wedi dinistrio llawer o'i elfennau cynnar. Ymhlith yr adeiladau eraill sy'n dyddio o'r cyfnod hwn mae The Eagles Inn, Y Llew Aur, tafarn Yr Arad, 27–31 Stryd y Dyffryn, a 94 Stryd y Dyffryn (Tafarn The Hope and Anchor).

Er bod rhai adeiladau cydlynol pwysig sy'n dyddio o ddiwedd yr unfed ganrif ar bymtheg wedi goroesi, anaml y gwelir adeilad cyflawn o'r unfed ganrif ar bymtheg nad yw wedi'i ailfodelu yn ddiweddarach er mwyn amwynder ac ymarferoldeb. Yn y modd hwn, mae Bryn y Ffynnon yn dŷ cerrig lloriog sy'n dyddio o tua 1581, ond fe'i hail-fodelwyd yn y ddeunawfed ganrif. Er hynny, y tu ôl i'r ffasâd, mae'n cynrychioli newid radical mewn traddodiadau adeiladu, gan symud i ffwrdd o'r tŷ neuadd o blaid tŷ lloriog â chynllun cryno. Ynghyd â Phlas Coch, mae'n enghraifft dda o adeilad domestig



Croeslun A-A



1 Lôn Parc, Dinbych

Llawr daear a Chroeslun
 SJ 0534 6607. NPRN 27620

Mae Gwesty'r Bull yn gyfuniad o ddau dŷ o'r ail ganrif ar bymtheg (Hawlfraint y Goron: CBHC, 1954).



Isod: Tai teras o'r ddeunawfed ganrif ar Lôn Swan (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Gyferbyn: 29 Stryd Fawr - siop bwrpasol a thŷ o'r ail ganrif ar bymtheg (Hawlfraint y Goron: CBHC).

trefol bwriadol yn y dref. Ar un olwg, hwn yw sylfaen y tŷ trefol Sioraidd a ddaeth i ddomynddu adeiladau domestig o statws uchel yn y dref.


Mae mwy o adeiladau sy'n dyddio o'r ail ganrif ar bymtheg, ond unwaith eto, ychydig iawn ohonynt

sydd wedi goroesi'n gyflawn. Ymhlith yr enghreifftiau mae 24 Stryd y Dyffryn a Gwesty'r Bull, 2 Sgwâr y Neuadd (er bod y ffasâd yn dyddio o'r ddeunawfed ganrif) a 29 Stryd Fawr (Y Fforwm), a adeiladwyd fwy na thebyg fel tŷ a siop wedi'u cyfuno: ffrâm bren oedd gan yr adeilad yn wreiddiol, ond rhoddwyd wyneb newydd o frics arno.


Mae mwy o adeiladau o'r ddeunawfed ganrif wedi goroesi. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn dai bonedd sylweddol, er bod rhai adeiladau o statws is, er enghraifft bythynnod teras 15–23 Lôn y Capel.

Yn Ninbych, fel mewn mannau eraill, gwelwyd cryn dipyn o waith adeiladu yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. O'r cyfnod hwn ymlaen y daw'n bosibl i lunio darlun manylach o strwythur cymdeithasol cyfan y dref, gan fod tai o bob gradd wedi'u hadeiladu ac wedi goroesi. At hynny, y bedwaredd ganrif ar bymtheg oedd oes fawr adeiladau masnachol a chrefyddol, a gwelir enghreifftiau gwych o'r ddau yn Ninbych.

Ymhlith yr ymyriadau a welwyd yn y dref yn ystod yr ugeinfed ganrif roedd gwaith clirio mawr, a rhywfaint o ailadeiladu ac ymhlith y colledion sylweddol a gafwyd roedd adeiladau ffrâm bren









Rhan hir



Llawr daear

0 5 Metrau

- | | | | |
|---|-------------|---|---------------|
|  | Cyfnod 1 |  | Trawst nenfwd |
|  | Cyfnod 2 |  | Manylion |
|  | Diweddarach |  | Cornis plastr |




29 Stryd Fawr, Dinbych

Llawr daear a Rhan hir

SI 0522 6609. NPRN 27338

Mae'r tŷ trefol hwn o garreg a arferai sefyll ar ben uchaf Stryd y Dyffryn ymhlith adeiladau hanesyddol a gollwyd yn ystod yr ugeinfed ganrif (Hawlfraint y Goron: CBHC, 1954).



yn 32–34, a 39–41 Stryd Fawr, ynghyd â 10 Stryd y Dyffryn a adeiladwyd o garreg. Mae llawer o adeiladau llai o faint wedi diflannu o'r treflun hefyd — y bythynnod y tu ôl i Mount Pleasant, ar hyd Lôn Abram ac ar Stryd Henllan. Fodd bynnag, nid yw'r broses ddisodli yn un newydd — cafodd bythynnod bach ar Bull Lane eu disodli ar droad y ddeunawfed ganrif gan filas sylweddol. O'r 1920au ymlaen, gwelwyd proses ddi-dor, fwy neu lai, o ehangu trefol drwy gydol y ganrif, mewn cyfres o ystadau tai cyhoeddus a phreifat i'r gogledd-orllewin a'r dwyrain o'r dref hanesyddol.

Mae gwaith arolwg manwl, megis y gwaith a wnaed gan CBHC, wedi taflu goleuni ar gryn dipyn o'r hanes sydd wedi'i guddio y tu ôl i ffasadau llawer o'r adeiladau yn Ninbych. Mae'n debygol bod llawer mwy o'r hanes hwnnw yn aros i gael ei ddarganfod ac, yng nghanol y dref, mae llawer o awgrymiadau o hyd bod adeiladau yn hŷn nag y maent yn ymddangos ar yr olwg gyntaf: ymhlith y cliwiau mae safle simneiau, serthrwydd y to, ac afreoleidd-dra ffasad. Mae cryn dipyn o le o hyd i gynnal gwaith ymchwil a chofnodi manylach.



Roedd yr adeiladau amrywiol ar Stryd Fawr yn cynnwys strwythurau ffrâm bren mawr a ddymchwelwyd yn ystod yr ugeinfed ganrif (Hawlfraint y Goron: CBHC, 1954).



2 Love Lane), mae tystiolaeth gynyddol bod adeiladau â ffrâm bren yn olygfa gyffredin yn y dref ar un adeg. Fodd bynnag, ymddengys yn glir fod carreg wedi'i defnyddio'n helaeth hefyd o gyfnod cynnar ac, weithiau, byddai'r ddau ddeunydd yn cael eu cyfuno yn yr un adeilad. Ymhlith yr enghreifftiau mae 22 Stryd Fawr (lle y ceir ail dŷ a adeiladwyd o garreg y tu hwnt i'r adeilad ffrynt), a Gwesty'r Bull. Wrth wraidd yr olaf o'r rhain mae adeilad o'r ail ganrif ar bymtheg a chanddo lawr uchaf ffrâm bren ar lawr daear o garreg — yr enghraifft olaf o ddefnyddio fframiau pren yn y dref o bosibl. Mae sawl un o'r adeiladau yn y bloc ar yr ynys rhwng Stryd Fawr a Lôn Gefn wedi'u gwneud o fframiau pren gyda muriau ochr o garreg. Roedd gan Rifau 32–34 Stryd Fawr (a ddymchwelwyd yn 1978) ffrynt a wnaed yn gyfan gwbl o fframiau pren hefyd, ond roedd ganddynt furiau ochr a muriau cefn o garreg.

Chwith: Mae 33 Stryd Fawr yn adeilad a wnaed o bren a charreg ac mae'n un o ddau adeilad yn unig yn y dref lle gwelir fframiau pren (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Deunyddiau Adeiladu


Nid oes yr un deunydd adeiladu yn dominyddu cymeriad Dinbych: mae brics, carreg a rendrad oll yn cyfrannu at y cymysgedd a welir, a chwaraeodd fframiau pren ran bwysig mewn traddodiadau adeiladu lleol hefyd.

Ymddengys fod 7 Heigad — yr adeilad domestig cynharaf sydd wedi goroesi yn y dref yn ôl pob tebyg — wedi'i adeiladu gan ddefnyddio cymysgedd o garreg a fframiau pren, thema a barhaodd wedi hynny. Er mai dim ond ar ddau adeilad y gwelir fframiau pren allanol bellach (33 Stryd Fawr a

P'un a gawsant eu cyfuno â charreg neu eu defnyddio ar eu pen eu hunain, mae digon o dystiolaeth i awgrymu bod fframiau pren wedi dominyddu'r olygfa yn Ninbych ar un adeg, ac mae arolwg manwl gan CBHC wedi nodi nifer o adeiladau lle cafodd ffrâm bren gynharach ei gorchuddio'n ddiweddarach neu ei hailadeiladu mewn carreg neu frics. Yn aml, roedd fframiau pren yn ymgorffori elfennau amlwg, yn arbennig lle'r oedd y llawr uchaf yn loywddu (Y Llew Aur a 32–34 Stryd Fawr) neu lle y gosodwyd pyst parwydydd yn agos at ei gilydd (yn wreiddiol yn nhafarn Y Llew Aur, ac yng Ngwesty'r Bull yn yr ail ganrif ar bymtheg).

Daeth carreg yn ddeunydd adeiladu cyffredin yn Ninbych oherwydd ei hargaeledd. Daeth y galchfaen

The Graig quarry (Denbigh: From the Stone Quarries), tynnwyd gan W. Simpson (1832–1899) ac engrafwyd gan R. Anderson (Llyfrgell Genedlaethol Cymru).



Gwaith rendro cain ar Westy'r Goron (uchod chwith) ac (uchod dde) 24 Stryd Fawr (Hawlfraint y Goron: CBHC).

a ddefnyddiwyd o gyfres o chwareli bach o fewn ffiniau'r dref yn ogystal â chwarel lawer mwy ar Y Graig. Roedd y llethrau is hefyd yn ffynhonnell leol o dywodfaen, a ffarriwyd ar gyfer carreg nadd mewn rhai adeiladau — er enghraifft, cafodd ei ddefnyddio'n helaeth ar gyfer congilfeini tai brics o'r ddeunawfed ganrif. Adeiladwyd rhai o'r adeiladau cynnar yn y dref yn gyfan gwbl neu'n rhannol o garreg (er enghraifft, The Eagles Inn). Cyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gadawyd y garreg yn y golwg weithiau, ond fel arfer byddai'n cael ei

gwyngalchu neu ei rendro: byddai llawer o'r adeiladau lle ceir muriau carreg lanw noeth bellach wedi'u trin yn y ffordd hon ar un adeg. Yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, datblygwyd geirfa bensaernïol ar gyfer y defnydd o rendr, gan arwain at fanylion o safon uchel. Ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, daeth rendr bras o ro chwipio yn ffasiynol, ac mae'n parhau i gyfrannu at nodweddion amrywiol y dref.

Gyda dyfodiad cyfnod y Dadeni Gothig gwelwyd blas ar fynegi deunyddiau mewn ffordd gadarn, ac



Gwaith carreg cyferbyniol ar Bull Lane (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Chwith pellaf: Gwaith carreg a rendro bras yn rhoi amrywiaeth i adeiladau ar Lôn Swan (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Chwith: Gwaith carreg cain ar dŷ'r capel, Factory Place (Hawlfraint y Goron: CBHC).



anogwyd y defnydd o garreg a adawyd yn y golwg. Mae'r filas pâr o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg ar Bull Lane yn enghraifft dda o hyn a cheir enghraifft arall fwy cynnil yn 78–80 Stryd y Dyffryn. Mae'r amrywiaeth o ran y ffordd y triniwyd carreg yn agwedd bwysig ar gymeriad y dref: mae ansawdd y gorffeniad yn ddangosydd arwyddocaol o statws yr adeilad. Felly, defnyddiwyd gorffeniad carreg nawdd cain ar adeiladau masnachol uchelgeisiol megis hen siop y Co-operative ar Stryd Fawr. Mewn manau eraill, mae gwaith carreg patrymog a sgwâr yn cyferbynnu â gwaith carreg lanw garwach.

Chwith: Nodweddir yr hen lys sirol ar Stryd y Dyffryn gan waith carreg cadarn o safon uchel (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Cyflwynwyd un o elfennau eraill adeiladu trefol ym Mhlas Coch a The Grove (y Gelli): y defnydd o frics.



*Uchod ac uchod dde:
Gwaith brics o safon
uchel ar ffasadau sy'n
dyddio o'r bedwaredd
ganrif ar bymtheg
(Hawlfraint y Goron:
CBHC).*

*Dde: Brics a theracota
ar Lôn Swan (Hawlfraint
y Goron: CBHC).*

*Dde pellaf: Manylion
gwaith teracota, Crown
Square (Hawlfraint y
Goron: CBHC).*



Roedd y ddau adeilad hyn ymhlith yr adeiladau brics cynharaf yng Nghymru a chawsant eu hadeiladu gan ddefnyddio deunyddiau a fewnforiwyd. Lledaenodd y defnydd o frics yn raddol wedi hynny, ond ni ddisodlwyd y defnydd o garreg yn gyfan gwbl tan yr ugeinfed ganrif. Yn y ddeunawfed ganrif yn arbennig, roedd yn ddeunydd o statws uchel a ffafriwyd gan y bonedd ar gyfer eu tai trefol. Cafodd y brics cynharaf eu mewnfurio, ond erbyn diwedd y ddeunawfed ganrif roeddent yn cael eu gweithgynhyrchu yn lleol — roedd caeau brics yn y Green (rhwng Townsend a Threfnant), yn ardal ystad Colomendy erbyn y 1860au, ac i'r de o'r dref yn Fron-dyffryn erbyn y 1870au.²⁹ Cyflwynwyd mwy o amrywiaeth maes o law pan ddaeth y broses gludo yn haws yn sgil dyfodiad y rheilffordd yn 1858. Mae adeiladau o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn y dref yn gwneud defnydd effeithiol o deracota brics gwydrog ac aml-lywiogrwydd. Defnyddiwyd brics yn aml ar gyfer y prif ffasad yn ei

gyfanrwydd (gan roi arwydd o'i statws uwch canfyddedig), neu fe'u defnyddiwyd yn syml ar gyfer addurniadau gyda calchfaen.

Mae cymysgedd o ddeunyddiau yn rhoi cymeriad penodol i'r dref: mae'n adlewyrchu'r defnydd a wnaed o wahanol ddeunyddiau ar wahanol adegau, ynghyd â statws cymharol y gwahanol ddeunyddiau ar adegau gwahanol. Gwelir hyn yn glir yn y cyferbyniadau rhwng muriau ffyrnt ac ochr neu gefn, lle mae carreg yn amlwg weithiau, a brics yn amlwg ar brydiau eraill.

Llechi yw'r deunydd a ddefnyddid ar gyfer toeon ym mhobman yn y dref (er bod rhai adeiladau to gwellt wedi goroesi yn yr ugeinfed ganrif gan gynnwys, yn arbennig, y talwrn y tu ôl i Dafarn yr Hawk and Buckle). Ceir amrywiadau bach yn y defnydd o lechi sy'n ychwanegu cymeriad at doeon y dref, gan gynnwys gwahaniaethau o ran maint a thrwch y llechi a'r dechneg o'u gosod, gyda rhai enghreiffiau o doeon llechi graddedig.



Muriau rwbel calchfaen a ffasâd o frics ar Lôn Swan (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Isod: Rwbel calchfaen wedi'i addurno â brics oddi ar Portland Place (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Tai bonedd sy'n dominyddu'r treflun ar Stryd y Dyffryn (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Dde pellaf: Cafodd Tafarn y Llew Aur ei hadeiladu'n wreiddiol fel dwy siop yn ôl pob tebyg ar ddechrau'r unfed ganrif ar bymtheg (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Mathau o Adeiladau Trefol

Ac eithrio'r castell a'r eglwys, mae'n debygol mai'r adeiladau cynharaf sydd wedi goroesi yn y dref yw tai o statws uchel, a dyma a welwyd yn gyffredinol drwy gydol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae gan Ddinbych gasgliad arbennig o dda o dai trefol o'r ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a oedd yn eiddo i'r bonedd. Gwelir y rhan fwyaf ohonynt ar Stryd y Dyffryn, ond mae Bryn Disgwylfa ar Riwr'r Bigwn a Than y Graig ar Lôn Swan yn enghreifftiau eraill.

Gyda rhai eithriadau, dim ond o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg y mae nifer fawr o anheddau o statws is wedi goroesi. Mae bythynnod trefol bach yn dominyddu Chapel Place, Rhiw'r Bigwn, Lôn Swan a Lôn y Post.

Er bod amrywiadau pwysig o ran statws ac ansawdd pensaernïol cysylltiedig yr adeiladau hyn, mae pob un ohonynt yn perthyn i draddodiad adeiladu trefol. Yn Ninbych, ceir tystiolaeth bwysig o ddatblygiad cynnar gwaith adeiladu trefol cynhenid, ynghyd â mathau o adeiladau arbenigol, megis anheddau wedi'u cyfuno â siopau. Mae'r tai bonedd sy'n dyddio o'r ddeunawfed ganrif, a'r rhesi o fythynnod gweithwyr o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn nodweddiadol o adeiladau trefol. Fodd bynnag, er bod ffurfiau adeiladu trefol nodweddiadol yn amlwg o gyfnod cynnar, roedd adeiladau â chanddynt gymeriad mwy cynhenid i'w gweld yn y dref hefyd — nid y talwrn oedd yr unig adeilad â tho gwellt. Mewn rhai rhannau o'r



dref, mae'n bosibl bod y newid o draddodiadau adeiladu gwledig i draddodiadau adeiladu trefol yn gymharol hwyr: disgrifiodd John Williams Love Lane fel a ganlyn: 'in a state of transition from the primitive simplicity of thatched cottages to improved, modern and substantial house property'.³⁰ Roedd gan Bwll y Grawys gymeriad gwledig tan o leiaf ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Efallai mai'r math amlycaf o adeilad trefol yn y dref yw'r siop sydd wedi'i chyfuno ag annedd. O'r adeiladau hynny, mae'n debygol mai 33 Stryd Fawr yw'r cynharaf, ond ymddengys fod yr adeilad yn 13–15 Stryd y Dyffryn hefyd wedi'i osod ar gyfer siopau sy'n wynebu'r stryd, gyda neuadd y tu ôl iddynt. Enghraifft bwysig arall yw tafarn Y Llew Aur. Ar un adeg, roedd ei phrif ran yn cynnwys dwy uned annibynnol, siopau o ddechrau'r unfed



Nodweddion sy'n ein hatgoffa o ganolfannau masnachu eraill: arddull Ffleminaid o gyfnod y Dadeni ar Crown Square (chwith pellaf) ac arddull Fenisaid ar Stryd Fawr (chwith) (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Chwith pellaf: Manylion ffryntiad siop, Stryd y Dyffryn (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Chwith: Manylion ffryntiad siop, Stryd Fawr (Hawlfraint y Goron: CBHC).

ganrif ar bymtheg o bosibl yn wynebu'r farchnad a chroes-adain yn rhoi lle i dŷ neuadd. Credir mai siop oedd rhan flaen yr eiddo ar gornel Crown Square a Lôn Gefn hefyd, gyda llety i'r cefn ac ar y llawr cyntaf, a gofod storio uwchlaw. Yn rhan gefn 27–31 Stryd y Dyffryn, mae neuadd sy'n dyddio o'r unfed ganrif ar bymtheg wedi goroesi ar y llawr cyntaf — trefniant anarferol sy'n awgrymu efallai bod y llawr daer wedi'i ddefnyddio at ddiben ar wahân i lety domestig.

Mae enghreifftiau da o bensaerniaeth fasnachol ddiweddarach eisoes wedi'u nodi. Cyflwynwyd arddulliau newydd (Gothig Fenisaid, Ffleminaid ac ati) a ffurfiau newydd (y gwydro di-dor bron ar loriau uchaf 26 Stryd Fawr oedd y mwyaf nodedig o'r rhain) ynghyd â rhai manylion trawiadol. Mae'r Clwb Cyfansoddiadol yn enghraifft ddiddorol arall: cyfuniad o res o siopau pwrpasol ar ei lawr isaf a chlwb uwchlaw.

Patrymau Datblygu Trefol

Os ceir mathau arbennig o adeiladau trefol, yna ceir patrymau datblygu arbennig hefyd. Yng nghanol gorllawn y dref, roedd y lleiniau yn hir ac yn gul ar y cyfan ac roedd hyn yn galw am fath o adeilad lle'r oedd y talcen yn cynrychioli'r prif ffryntiad, gyda llinell yr adeilad yn rhedeg yn ôl ar hyd y llain. Gellir gweld enghreifftiau da o hyn ar ochr ogleddol Stryd Fawr yn arbennig. Gwelwyd gwaith cynllunio dyfeisgar yn y fan hon, lle'r oedd gofod cyfyngedig ar gael drwy dresmasu ar y farchnad. Rydym eisoes wedi gweld sut y gwnaeth maint cyfyngedig y lleiniau arwain at waith cynllunio arloesol o gyfnod cynnar — er enghraifft ym Mryn y Ffynnon, Gwesty'r Bull a 24 Stryd y Dyffryn.

Mae strwythur lleiniau'r dref a'i phatrymau datblygu dwys yn amlwg o'r awyr (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Lle yr oedd gofod yn caniatáu, roedd modd mabwysiadu dull mwy traddodiadol o hyd, a gwelir enghreifftiau o'r neuadd linellol gonfensiynol a'r cynllun croes-adain yn 1 Lôn Parc a'r Kings Arms, Stryd y Dyffryn.

Ceir rhai achosion amlwg o gyfuno lleiniau, a oedd yn caniatáu ar gyfer cynllun ehangach byth. Mae'n bosibl mai rhes o siopau ar dair llain gyfagos a welwyd yn Rhif 32–34 Stryd Fawr, a bod y cyfan wedi'i ddatblygu fel un adeilad. Roedd cynllun ehangach yn bosibl hefyd ar y lleiniau mwy o faint ar Stryd y Dyffryn.

Ym Mryn y Parc ar Lôn Parc, cafodd eiddo trefol teulu cefnog ei ymestyn drwy gyfrwng adeiladau olynol a oedd yn rhedeg yn ôl o'r ffryntiad cymharol gul. Arweiniodd hyn at gyfuniad anhygoel o adeiladau cynnar gan gynnwys rhes o adeiladau ffrâm bren a charreg yn gyfochrog â'r stryd yn cynnwys neuadd a pharlwr heb ei wresogi, gydag adain gul ffrâm bren y tu ôl iddynt. Yn ystod yr ail ganrif ar bymtheg, roedd cegin yn cysylltu'r adain hon ag ail neuadd yn dyddio o ddiwedd yr unfed ganrif ar bymtheg, yn rhedeg yn gyfochrog â'r ffryntiad.

Bron ymhobman, cafodd y gwaith datblygu ei gyfyngu i'r strwythur llain a oedd yn bodoli eisoes, a gallai pob llain gael ei datblygu'n annibynnol ar y llain gyfagos, gan gyfrannu at yr amrywiaeth eang





Patrymau datblygu amrywiol, Stryd y Dyffryn (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Tai o statws uchel a adeiladwyd fesul pâr, Stryd y Dyffryn (Hawlfraint y Goron: CBHC).

a welwyd yn y dref o ran oedran, math ac arddull adeiladau. Yn gyffredinol, tai sengl yw'r tai o statws uchel, ond ceir eithriadau — er enghraifft, y tai pâr yn 38–40, 53–55 a 57–59 Stryd y Dyffryn. Yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, datblygodd y dref drwy gyfrwng terasau bach nodweddiadol, lle y câi nifer fach o anheddau eu hadeiladu ar leiniau a oedd yn bodoli eisoes. Mae Love Lane a Lôn y Post yn enghreifftiau da o'r patrwm hwn. Adeiladwyd hyd yn oed y terasau hwy (megis y rhai ar Riw'r Bigwn) o unedau datblygu bach a roddwyd at ei gilydd. Ceir rhai enghreifftiau da sydd wedi goroesi o waith adeiladu a wnaed y

tu ôl i leiniau ffryntiad yn Edgars Terrace, Rhiw'r Bigwn, a Graig Terrace, Lôn Swan. Mae'r patrwm datblygu hwn yn dystiolaeth bwysig o'r strwythur lleiniau a etifeddwyd oddi wrth genedlaethau cynharach yn y dref. Mae cyfanrwydd y tai teras bach hyn yn agwedd werthfawr ar gymeriad y dref, ond gall gael ei erydu'n hawdd gan newid tameidiog.

Mae waliau terfyn yn gyfrwng pwysig sy'n asio strwythur lleiniau'r dref ac maent yn elfen amlwg o'r treflun mewn llawer o ardaloedd. Gallant hefyd fod yn rhan o adeiledd hanesyddol pwysig.

Ardaloedd Cymeriad



Y dref gaerog a'r castell (Hawlfraint y Goron: CBHC).

I.Y Castell a'r Dref Gaerog

Cefndir Hanesyddol

Sefydlwyd y castell a'r dref gaerog yn union ar ôl gorchfygiad Llywelyn a Dafydd ap Gruffydd yn 1282, pan roddodd Edward I arglwyddiaeth Dinbych i Henry de Lacy, Iarll Lincoln. Er y gwyddys fod anheddiad eisoes yn bodoli yn Ninbych — sedd Llywelyn Fawr, a Dafydd ap Gruffydd yn ddiweddarach — ni wyddys union leoliad yr anheddiad hwnnw. O dan nawdd de

Lacy, roedd muriau'r dref wedi'u cwblhau i raddau helaeth erbyn 1290, er i elin bellach gael ei hadeiladu tua 1295. Adeiladwyd y castell hefyd mewn sawl cam, ond fe'i cwblhawyd erbyn 1311. Roedd y dref o fewn y muriau yn cynnwys 63 o fwrdeisi erbyn 1285, ond erbyn dechrau'r unfed ganrif ar bymtheg, roedd y dref y tu hwnt i'r muriau yn bwysicach na hi. Dewisodd Iarll Caerlŷr dref Dinbych fel y safle ar gyfer ei eglwys gadeiriol newydd, ond ni chafodd yr adeilad byth ei gwblhau. Yn ystod y Rhyfel Cartref, gwasanaethodd y dref gaerog fel beili allanol y castell yn ystod gwarchae 1646.

Ychydig iawn o gynllun y dref gaerog ganoloesol sydd wedi goroesi ac mae'n debygol mai Castle Hill yw'r unig ran sy'n weddill o linell stryd wreiddiol. Roedd y dref gaerog wedi dadfeilio cymaint erbyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg fel nad oedd patrwm strydoedd a etifeddiwyd yn ddigon hyd yn oed i rwystro datblygiad y tu hwnt i Castle Hill a chrëwyd ffyrdd newydd ar gyfer adeiladu tai ar raddfa fach. Dangosir ffurfioldeb y broses hon gan gymeriad unedig y rhesi o dai teras. Roedd hyn, efallai, mewn gwrthgyferbyniad â'u rhagflaenwyr: 'the numerous new but humble habitations which crowd the castle precincts, not certainly to its ornament'.³¹ Ni wnaeth y gwaith adeiladu cynharach hwn ymyrryd mewn gwirionedd â chymeriad agored yr ardal, a oedd yn lleoliad a ffafriwyd at ddibenion hamdden o ddiwedd y ddeunawfed ganrif o leiaf.

Potensial Archeolegol

Gan mai dyma oedd safle'r dref gaerog Seisnig ar ddiwedd y drydedd ganrif ar ddeg, mae posibilrwydd mawr y gall yr ardal hon roi gwybodaeth bwysig am gynllun y fwrdeistref gaerog, a'r bwrdeisi a'r adeiladau cysylltiedig oddi mewn iddi. Gallai'r ardal hon hefyd fod ar safle'r anheddiad Cymreig a ragflaenodd y dref ganoloesol ddiweddarach, ac efallai bod strwythurau a dyddodion wedi'u claddu o'r cyfnod cyn y goresgyniad.

Nodweddion Adeiladu

Cofnodwyd bod gan hen Neuadd Friesland, The Old Castle Arms yn ddiweddarach, ddrws a ffrâm nenfforch yn dyddio o'r bedwaredd ganrif ar ddeg yn 1914. Ychydig iawn o gymeriad hanesyddol sydd gan yr adeilad, a elwir yn Bryn Awelon, bellach ond er

Y tu mewn i'r dref gaerog (Hawlfraint y Goron: CBHC).



The Old Castle Arms, ac eglwys Sant Hilary cyn iddi gael ei dymchwel yn rhannol, tua 1911 (Swyddfa Gofnodion Sir Ddinbych).



52-54 Castle Hill — mae'n bosibl mai lleoliad y teras hwn o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn agos at y castell yw'r rheswm dros ei gynllun anarferol.





O fewn y dref gaerog, mae terasau hir o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn rhedeg ar hyd y cyfuchliniau (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Isod: Calchfaen a brics a ddefnyddiwyd i adeiladu'r tai hyn o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

hynny hwn yw safle un o'r adeiladau domestig prin iawn o'r cyfnod canoloesol sydd wedi goroesi yn y dref, a'r unig adeilad o'i fath yn y dref gaerog. Mae'r ardal hefyd yn cynnwys tŵr Eglwys Sant Hilary, yr unig ran o'r capel garsiwn a sefydlwyd ar ddiwedd y drydedd ganrif ar ddeg sydd wedi goroesi (dymchwelwyd gweddill yr eglwys yn 1923), ac olion eglwys gadeiriol larll Caerlŷr sy'n dyddio o ddiwedd yr unfed ganrif ar bymtheg. Mae'r adeiladau eraill a welir yma yn dyddio'n bennaf o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, er bod to serth 45 Castle Hill yn awgrymu hanes cynharach. Mae adeiladau castellaidd 52–54 Castle Hill yn grŵp anarferol o bictiwreg: 'a very recent erection, which offsets the departed gothick grandeur of the castle'.³² Mewn manau eraill, rhennir y datblygiad rhwng rhesi bach o dai teras, a'r rhesi hwy a gynlluniwyd ar Leicester Terrace a St Hilary's Terrace. Yn wahanol i adeiladau mewn manau eraill yn y dref hanesyddol, mae'r rhesi hwy hyn yn rhedeg ar hyd y gyfuchlin yn hytrach nag ar ei thraws, ac maent yn nodwedd drawiadol o'r olygfa o'r dref o gyfeiriad y gogledd. Calchfaen wedi'i chyfuno â brics yw'r prif ddeunyddiau adeiladu.



1295–1305. Yn 1334, fe'i disgrifiwyd yn *villa mercatoria*, a dyma lle'r oedd canolbwynt masnach y dref ganoloesol. Dyma lle'r oedd y brif farchnad ynghyd â strwythur lleiniau sy'n llwyddo i greu ymdeimlad canoloesol — mae bwrdeisi gyda'r ffurf linellol hir nodweddiadol wedi goroesi i'r de o Stryd Fawr o leiaf. Collwyd rhai eraill i'r gogledd o Lôn Gefn pan gliriwyd yr ardal hon ar gyfer maes parcio. Cofnodwyd seleri posibl o'r cyfnod canoloesol o dan sawl adeilad yn yr ardal hon (tafarn Yr Arad, Rhifau 15–17 Llain Portland, a 13–15 Stryd y Dyffryn).

2. Stryd Fawr (gan gynnwys Llain Portland, Lôn Gefn, Lôn Crown, Lôn Swan a rhan uchaf Stryd y Dyffryn)

Cefndir Hanesyddol

Mae'r ardal hon yn cynnwys o leiaf ran o'r dref y tu hwnt i'r muriau a oedd yn bodoli erbyn tua

Ar ddiwedd y bymthegfed ganrif, roedd 147.5 o fwrdeisi ar Stryd Fawr, mwy nag y byddai'r stryd bresennol wedi gallu ei gynnal. Ymddengys yn debygol y gallai o leiaf ran uchaf Stryd y Dyffryn fod wedi bod yn barhad o Stryd Fawr ar un adeg.

Er bod Stryd Fawr yn cynnig echel gadarn ar gyfer datblygiad, mae'r strwythur lleiniau mewn manau eraill yn afreolaidd ac yn llawn lonydd ac aleau sy'n aml yn gromliniol eu ffurf, megis Mount Pleasant, Panton Hall, Bull Lane, Lôn Crown a Lôn

Mae'r bloc o adeiladau colofnog ar ochr ddeheuol Stryd Fawr yn nodwedd amlwg ac anarferol o'r treflun (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Swan. Prin yw'r gydberthynas rhwng y strwythur hwn a'r patrymau grid rheolaidd a ddefnyddiwyd mewn trefi eraill â chestyll ar ddiwedd y drydedd ganrif ar ddeg. Mae'n bosibl i'r cynllun gael ei etifeddu gan de Lacy yn 1282: gwyddom fod anheddiad Cymreig pwysig wedi'i leoli yn Ninbych, ond ni wyddom beth oedd maint yr anheddiad hwnnw na'i union leoliad. Yn ôl traddodiad, roedd y tir uchel y tu ôl i Crown Square yn dynodi safle cadarnle tywysogion Cymru, er nad oes unrhyw dystiolaeth archeolegol i gefnogi'r datganiad hwn.

Erbyn dechrau'r unfed ganrif ar bymtheg, roedd adeiladau wedi'u codi ar ran o'r farchnad agored — mae'r bloc ar ochr ogleddol Stryd Fawr yn meddu ar nodweddion sy'n gysylltiedig â thresmasu. Roedd Sgwâr y Neuadd yn dir agored hefyd yn ôl pob tebyg tan i Iarll Caerlŷr sefydlu neuadd y sir yno yn 1572. Mae'n bosibl bod The Piazza/y Bylciau wedi'i sefydlu o dan ei nawdd mewn ymgais i greu rhywfaint o undod rhwng adeiladau gwahanol ar hyd Stryd Fawr a nodwedd arbennig o'r treflun.

Potensial Archeolegol

Fel rhan o'r dref ganoloesol o'i chyfnod cynharaf, mae'r posibilrwydd y gellir cael gwybodaeth am gynllun a'r gwaith adeiladu sy'n gysylltiedig ag ef, ynghyd â thystiolaeth sy'n ymwneud â masnach,

diwydiant a'r economi ddomestig, o unrhyw ymyrraeth archeolegol. Mae sawl seler bosibl o'r cyfnod canoloesol eisoes wedi'u canfod, ac mae'n bosibl y gallai arolwg cynhwysfawr ddarganfod mwy ohonynt. Mae arolygon adeiladu manwl eisoes wedi gwneud cyfraniad mawr at ein dealltwriaeth o'r dref o'r unfed ganrif ar bymtheg, a dylid achub ar gyfleoedd pellach i ymchwilio i'r adeiledd sydd wedi goroesi: mae'n bosibl o hyd bod adeiledd a manylion cynnar wedi goroesi y tu ôl i ffasadau diweddarach. Gallai'r ardal hon hefyd fod yn safle anheddiad a fodolai cyn y goresgyniad, ac efallai bod strwythurau a dyddodion sy'n gysylltiedig â'r cyfnod cynharach hwn wedi'u claddu yma.

Nodweddion Adeiladu

Fel prif ganolfan fasnachol y dref, gwelir canran uchel o'r adeiladau cynharaf sydd wedi goroesi yn yr ardal hon, ond mae'r ardal wedi gweld llawer o newid hefyd, gydag adeiladau unigol yn dangos dilyniant cymhleth o newidiadau. At hynny, gwelir adeiladau o bob cyfnod allweddol yn nhwff y dref. Dyma lle gwelir darn o'r adeilad domestig cynharaf sydd wedi goroesi yn y dref — mae'n bosibl bod 7 Heigad yn dyddio o'r bedwaredd ganrif ar ddeg — a cheir sawl adeilad arwyddocaol sydd wedi goroesi o'r unfed ganrif ar bymtheg a'r ail ganrif ar bymtheg hefyd, ynghyd ag enghreifftiau arbennig o adeiladau masnachol o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.



Mae ffasâd eithriadol o uchel tafarn The Old Vaults yn dystiolaeth o waith adeiladu a wnaed yn yr ugeinfed ganrif ar adeilad sy'n dyddio'n wreiddiol o'r ail ganrif ar bymtheg neu'r ddeunawfed ganrif (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Mae'r hanes hir o ddefnydd dwys wedi arwain at amrywiaeth eang o adeiladau, gyda phob llain unigol o dir yn meddu ar ei hanes datblygu ei hun. Ceir amrywiaeth cysylltiedig o ddeunyddiau adeiladu, o fframiau pren i frics a charreg, ynghyd ag amrywiaeth o orffeniadau o garreg nadd cain o ansawdd i rendrau llyfn a gro chwipio.

Fel sy'n nodweddiadol, mae llawer o waith adeiladu wedi mynd rhagddo yn yr ardal, gydag adeiladau tal a ffryntiadau cul. Defnyddir y tir y tu cefn hefyd mewn llawer o achosion, gydag

adeiladau yn dal i fod yn uniongyrchol gysylltiedig ag eiddo'r ffrynt yn aml.

Mae'r rhan fwyaf o'r eiddo yn yr ardal yn eiddo masnachol, gydag amrywiaeth dda o adeiladau — o enghreifftiau prin o siopau sydd wedi goroesi o'r unfed ganrif ar bymtheg i bensaerniaeth fasnachol o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

I ffwrdd oddi wrth brif ganolfan fasnachol y dref, nodweddir Lôn Swan gan gymysgedd o adeiladau lled-ddiwydiannol (gwaith argraffu Gwasg Gee yn arbennig), a thai teras llai o faint.

Lôn Parc, lle'r oedd Eglwys Dewi Sant a'r clafdy ymhlith yr adeiladau cyntaf i gael eu hadeiladu ar hen barcdir i'r de o'r dref (Denbigh, North Wales, engrafwyd gan Newman and Co., Llyfrgell Genedlaethol Cymru).



Isod: Stryd y Dyffryn, fel y'i darluniwyd yn 1847 (Denbigh, engrafwyd gan J. Harwood, Llyfrgell Genedlaethol Cymru).



3. Stryd y Dyffryn (gan gynnwys Lôn Parc, Lôn Ganol, Lôn y Post, Peake's Lane)

Cefndir Hanesyddol

Ni cheir unrhyw gyfrif penodol am darddiad y rhan hon o'r dref, ond dangosir y cynllun grid a gynrychiolir gan Stryd y Dyffryn (a elwid yn Lôn Isaf gynt), gyda Lôn Ganol a Lôn Parc, yn glir ar fap John Speed o'r dref yn 1610. Ceir nifer o adeiladau hefyd sy'n dyddio o'r unfed ganrif ar bymtheg neu hyd yn oed y bymthegfed ganrif, nid yn unig ar ben uchaf Stryd y Dyffryn, ond hefyd tuag at y pen isaf (tafarn The Hope and Anchor). Awgrymir weithiau bod yr ardal hon yn estyniad a gynlluniwyd ar ddechrau'r unfed ganrif

ar bymtheg, ond gallai hefyd fod yn rhan o'r cynllun a gynlluniwyd yn y cyfnod canoloesol.

Mae cynllun yr ardal hon yn wahanol iawn i ben uchaf y dref o amgylch Stryd Fawr. Nid yn unig y gwelir strydoedd wedi'u gosod ar ffurf grid rheolaidd, ond islaw siâp echel Lôn y Post a Peake's Lane, gellir gweld cyfres o leiniau hirsgwar eang o hyd. Dangosir y rhain ar fap Speed. Roedd strwythur y lleiniau yn golygu bod modd sefydlu cyfres o dai bonedd sylweddol, y mae'r cynharaf ohonynt — Grove House (y Gelli) — yn dyddio o'r unfed ganrif ar bymtheg. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dyddio o'r ddeunawfed ganrif. Yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, fe'i gwelwyd fel 'the retired and professional quarter'.³³

Mae'n debygol bod dyfodiad y rheilffordd yn 1858 a lleoliad yr orsaf ar waelod Stryd y Dyffryn wedi annog patrwm datblygu ychydig yn wahanol ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ar ran isaf Stryd y Dyffryn, gwelir blociau byr o dai teras wedi'u hadeiladu ar leiniau a oedd yn bodoli eisoes. Mae'n debygol mai gwaith ailddatblygu yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg yw'r rhain gan fod map Speed yn dangos bod y stryd wedi'i datblygu'n llawn yn 1610.

Roedd pen uchaf Lôn Parc yn amlwg wedi'i integreiddio'n dda yn y dref hanesyddol. Dengys map John Speed ddatblygiad dwys uwchlaw Mellings Lane a gwelir dau adeilad o'r unfed ganrif ar bymtheg yma — yr oedd o leiaf un ohonynt yn eiddo o statws sylweddol. Islaw Peake's Lane, roedd Lôn Parc yn ymdebygu'n fwy i lôn gefn, gyda



Adeiladwyd Grove House (y Gelli) yn 1574, ond mae ei ffasâd cain wedi'i ailfodelu yn dyddio o 1693 (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Isod: Mae tai mawr yn un o nodweddion Stryd y Dyffryn (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Gwaelod: Adeiladau amrywiol ar Stryd y Dyffryn (Hawlfraint y Goron: CBHC).

datblygiad gwasgareddig yn unig. Roedd Lôn Ganol, hefyd, yn ymdebygu i lôn gefn a oedd yn dechrau cael ei datblygu. Fodd bynnag, erbyn canol i ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, prin fu'r estyniad i'r ardal adeiledig ar y ddwy lôn hyn. Heddiw, mae Lôn Ganol yn dal i ymdebygu i lôn gefn ac nid yw'r ôl troed adeiladu a welir yn wahanol iawn i'r un a welwyd yn yr ail ganrif ar bymtheg, er bod pob un o'r adeiladau yn dyddio o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Datblygwyd Lôn Parc mewn ffordd dra gwahanol, gyda thair mwy sylweddol o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn cael eu hadeiladu i fanteisio ar y ffaith bod yr ardal yn gymharol dawel ac yn eang. Profodd yn lleoliad deniadol ar gyfer datblygu yn yr ugeinfed ganrif hefyd. Roedd Ysgol Howell ac Eglwys Dewi Sant yn amlygu'r broses dresmasu sylweddol gyntaf ar hen barcdir i'r de, a barhaodd yn ystod yr ugeinfed ganrif gyda datblygiad ar hyd St David's Lane.



Potensial Archeolegol

Mae'r ardal wedi'i lleoli o fewn ôl troed y dref ganoloesol, fel y'i mapwyd gan Speed yn 1610. Felly, mae posibilrwydd y gellir cael gwybodaeth am gynllun a defnydd tir y dref gynnar, gan gynnwys ei maint a'i dyddiad, o unrhyw ymyrraeth archeolegol. Mae arolygon adeiladu manwl eisoes wedi gwneud cyfraniad mawr at ein dealltwriaeth o'r dref o'r unfed ganrif ar bymtheg, a dylid achub ar gyfleoedd pellach i ymchwilio i'r adeiledd sydd wedi goroesi: mae'n bosibl o hyd bod adeiledd a manylion cynnar wedi goroesi y tu ôl i ffasadau diweddarach.



Uchod: Hen dŷ trefol ar Stryd y Dyffryn (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Plas Heaton oedd prif breswylfa teulu Heaton yn ystod y ddeunawfed ganrif (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Nodweddion Adeiladu

Islaw Lôn Swan a Mellings Lane, caiff rhan ganol Stryd y Dyffryn ei dominyddu gan dai bonedd trefol o'r ddeunawfed ganrif — enghraifft drawiadol o greu ardal breswyl ar wahân. Adeiladwyd y rhan fwyaf ohonynt o frics mewn arddull Sioraidd ddomestig. Fodd bynnag, un eithriad nodedig yw hen dŷ trefol teulu Heaton, sy'n ymdebygu i balas gyda'i bediment amlwg mewn calchfaen batrymog a sgwâr.

Mae rhan isaf Stryd y Dyffryn yn wahanol iawn o ran ei chymeriad, gyda chymysgedd o dai sengl uchelgeisiol nad ydynt yn cyrraedd statws bonedd, a thai teras a adeiladwyd mewn rhesi byrion i gyd-fynd â'r strwythur lleiniau a oedd yn bodoli eisoes. Mae llawer o'r gwaith datblygu hwn yn dyddio o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, ond mae'n debygol ei fod yn disodli adeiladau cynharach megis yr un sydd wedi goroesi yn nhafarn The Hope and Anchor. Datblygwyd pob llain yn annibynnol ar ei lleiniau cyfagos, gan arwain at gryn amrywiaeth yn y treflun — amrywiaeth a fynegwyd yn y tai o wahanol faint a adeiladwyd gan ddefnyddio amrywiaeth eang o ddeunyddiau.

Ar ochr gogledd-ddwyreiniol Stryd y Dyffryn, dymchwelwyd Salusbury Place yn tua 1953 a chreodd hyn gyfle i ailddatblygu. Yn anffodus, datblygiadau masnachol a welwyd, gan dynnu oddi wrth gymeriad preswyl y stryd. Mae'r gwaith o glirio safle'r orsaf reilffordd wedi rhoi cyfle arall, y mae ei ganlyniad hefyd yn debygol o wanhau'r cymeriad cryf hwn a welir fel arall.

Nodweddir Lôn Ganol a rhan uchaf Lôn Parc gan dai llai o faint a adeiladwyd o gymysgedd o ddeunyddiau. Ar Lôn Parc, yn ogystal â dau eiddo o'r unfed ganrif ar bymtheg, gwelir cyfres o dai eithaf sylweddol o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg â tharddiad cynharach o bosibl. Mae'n debygol bod y rhain yn adlewyrchu ei lleoliad canolog yn agos at y brif farchnad. Ymhellach i lawr Lôn Parc, y tu ôl i waliau terfyn amlwg, gwelir cyfres o dai mwy o faint o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a datblygiadau o'r ugeinfed ganrif.

Mae Lôn y Post yn nodi llinell ffordd a oedd yn bodoli erbyn 1610 ac a oedd, o bosibl, yn rhan o'r cynllun grid cynnar. Yn ôl o'r lôn i'r



Uchod: Amrywiaeth o ran deunydd a maint ar Stryd y Dyffryn (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Chwith ac isod: Bythynnod bach ar Lôn y Post.

de-orllewin mae ffermdy brodorol, 'Berllan', eithriad prin i gymeriad trefol adeiladau yn y dref ac, i'r gogledd-ddwyrain, ceir sawl adeilad a gysylltwyd, ar un adeg, â thafarn The Hawk and Buckle ar Stryd y Dyffryn. Fel arall, caiff y stryd ei dominyddu gan resi bach o dai teras a adeiladwyd fel cyfres o ddatblygiadau annibynnol ar leiniau a oedd yn bodoli eisoes ar wahanol adegau yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ceir amrywiaeth amlwg o ran eu meintiau a'u cymeriad pensaernïol.





Mae tai a adeiladwyd rhwng y rhyfeloedd yn ychwanegu at y llinell adeiladu wreiddiol ar ben uchaf Love Lane.

4. Love Lane

Cefndir Hanesyddol

Gwelwyd y cyfeiriad cyntaf at Love Lane mewn dogfen rhent o ddiwedd y bymthegfed ganrif, ac mae'n debygol ei bod yn rhan o ddatblygiad cynnar y dref y tu hwnt i'r muriau. Mae'n hirfain iawn, ond ceir toriadau amlwg yn y llethr uwchlaw ac islaw llinell y stryd — mae'r toriad islaw'r stryd yn ymyrryd â chyfres o ffiniau lleiniau wedi'u diffinio'n gryf a ddangosir ar yr Argraffiad Cyntaf o fap yr Arolwg Ordnans sy'n rhedeg drwodd i Meadow Lane. Roedd Meadow Lane yn llwybr troed syml tan ddechrau'r ugeinfed ganrif, pan adeiladwyd cyfres fach o dai ar hyd ei hochr ddwyreiniol. Roedd yr adeiladau ar Love Lane yn ddwsach nag y maent yn awr ar un adeg — mae map yr Arolwg Ordnans o 1875 yn dangos rhesi o dai ar onglau sgwâr i'r brif echel ddatblygu; gellir gweld adfeilion rhai o'r rhain o hyd. Gwelwyd rhes o fythynnod hefyd y tu ôl i Mount Pleasant, ond fe'u disodlwyd yn ddiweddarach yn yr ugeinfed ganrif. Mae'r rhan fwyaf o'r adeiladau yn yr ardal hon yn dyddio o'r

bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn aml o ganlyniad i waith ailadeiladu. Yn 1856, disgrifiodd John Williams y trawsnewid fel a ganlyn: 'the primitive simplicity of thatched cottages to improved modern and substantial house property'.³⁴

Roedd Love Lane yn lleoliad poblogaidd ar gyfer rhai adeiladau trefol pwysig ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg — yr Ysgol Brydeinig (1843–44) a'r hen garchar (tua 1843).

Tuag at ben uchaf Love Lane, dangosir hen chwarel fach a gwaith dŵr y dref ar fap yr Arolwg Ordnans o 1875 ac yn yr ugeinfed ganrif, yn ystod y cyfnod rhwng y rhyfeloedd, adeiladwyd cyfres fach o dai ar lain o dir a fu'n dir agored yn flaenorol.

Potensial Archeolegol

Mae'r ardal wedi'i lleoli o fewn ôl troed y dref ganoloesol, fel y'i mapiwyd gan Speed yn 1610. Felly, mae posibilrwydd y gellir cael gwybodaeth am gynllun a defnydd tir (gan gynnwys gweithgarwch domestig a diwydiannol) y dref gynnar, o unrhyw ymyrraeth archeolegol.



*Chwith pellaf:
Amrywiaeth o
adeiladau ar Love Lane.*



*Chwith: Adeiladau
sy'n dyddio o bosibl
o'r ddeunawfed ganrif
ar Love Lane.*




*Enghraifft brin o
fframiau pren allanol
ochr yn ochr ag
adeiladau diweddarach
a wnaed o gymysgedd
o ddeunyddiau ar Love
Lane (Hawlfraint y
Goron: CBHC).*

*Isod: Y treflun unigryw
o amgylch Love Lane.*

Nodweddion Adeiladu

Er gwaethaf ei tharddiad cynnar, mae'r rhan fwyaf o'r adeiladau yn yr ardal hon yn fythynnod bach o ganol i ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a adeiladwyd mewn rhesi byrion ar wahanol adegau, gan arwain at amrywiaeth sylweddol o ran eu maint, y deunyddiau a ddefnyddiwyd a'u nodweddion. Un eithriad pwysig yw rhif 2 Love Lane, sy'n un o ddau adeilad yn unig yn y dref sy'n arddangos fframiau pren. Gallai rhifau 11–15, gyda'u toeon serth, fod wedi goroesi o'r ddeunawfed ganrif. Mae'r adeiladau ar Love Lane sy'n dyddio o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg wedi'u hadeiladu o frics yn gyffredinol, gydag arwyneb mwy llachar; gwelir cymysgedd o rwbel calchfaen yn y golwg a rendr bras ar yr adeiladau cynharach.



Cymeriad gwledig Pwll y Grawys, fel y'i darluniwyd gan Moses Griffith yn 1810 (Denbigh Castle, Llyfrgell Genedlaethol Cymru).



5. Pwll y Grawys a Bridge Street

Cefndir Hanesyddol

Mae'r ardal o fewn ffiniau'r dref gynnar fel y'i mapiwyd gan Speed yn 1610. Mae'n dangos bloc o adeiladau ar ochr ogleddol Bridge Street, datblygiad gwasgaredig sy'n gysylltiedig, yn ôl y sôn, â chwrs dŵr i'r de, a datblygiad helaeth lle gwelir eglwys y Santes Fair bellach. Ar fap Speed, mae nant Henllan yn llifo i lawr o'r gogledd-orllewin ac yn ystumio drwy dir agored rhwng Love Lane a Phwll y Grawys — roedd unrhyw bwll a fodolai yma wedi'i golli erbyn y cyfnod hwn (1610). Wrth sôn am y pwll, nododd John Williams yn 1856 '[it] has now nearly disappeared except in case of great floods, when it again swells into a lake, covering the entire street, and inundating the surrounding houses'.³⁵ Er bod rhywfaint o ddatblygiad diwydiannol wedi'i weld cyn i'r Argraffiad Cyntaf o fap yr Arolwg Ordnans gael ei gyhoeddi yn 1875 (y gwerthwr crwyn gerllaw Bryn y Ffynnon) a rhywfaint o ddatblygiad o amgylch Neuadd Panton, roedd yr ardal yn dal i fod wedi'i lleoli, i raddau helaeth, ar gyrion y dref hyd at ddiwedd y bedwaredd ganrif

ar bymtheg gyda thai gwasgaredig yn Holland Place (cafwyd y cyfeiriad dogfennol cyntaf at dŷ yma yn 1710) a Maes Hyfryd. Cyfeiriodd John Williams at 'those little thatched cabins standing on the brink of this pool', ac mae ffotograffau cynnar yn awgrymu ardal â chymeriad cynhenid mwy gwledig.³⁶

Bridge Street a'r ardal o'i hamgylch oedd lleoliad y marchnadoedd moch a defaid yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Fodd bynnag, yn ddiweddarach yn y ganrif, gwelwyd newid radical pan sefydlwyd Smithfield yn 1895 a chrëwyd ffordd (Ffordd y Ffair) a oedd yn cysylltu â Lôn Llewelyn. Yn ystod y cyfnod hwn, adeiladwyd rhesi bach o fythynnod y tu ôl i Holland Place ac ym Maes Hyfryd ac, yn tua 1930, ailadeiladwyd tafarn The Hand. Roedd y newidiadau hyn yn dynodi'r ffaith bod yr ardal yn cael ei threfoli'n raddol. Cadwyd y gofod agored, ond fe'i defnyddiwyd fel cyffordd.

Gwelir patrwm lleiniau amlwg i'r gogledd o Bridge Street ac yn Panton Place. Mae'n debyg i'r patrwm a welir yn ardal High Street lle y caiff adeiladau eu cadw mewn lleiniau cellog, wedi'u cylchu gan ffyrdd a llwybrau. Dangosir hyn ar fap Speed, ac mae'n batrwm sy'n amlwg wedi goroesi naill ai o'r dref a sefydlwyd ar ddiwedd y drydedd ganrif ar ddeg, neu'r dref flaenorol hyd yn oed.



Potensial Archeolegol

Mae'r ardal o fewn ôl troed y dref ganoloesol, fel y'i mapiwyd gan Speed yn 1610. Felly, mae posibilrwydd y gellir cael gwybodaeth am gynllun a defnydd tir y dref gynnar o unrhyw ymyrraeth archeolegol.

Nodweddion Adeiladu

Caiff yr ardal ei dominyddu gan adeiladau o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif, gwaith adeiladu a aeth rhagddo wrth iddo symud o fod ar gyrion y dref i fod yn rhan annatod o'r dirwedd drefol. Fodd bynnag, gwelir rhai adeiladau pwysig o gyfnod cynnar sydd wedi goroesi yn yr ardal hon — mae Bryn y Ffynnon yn dŷ trefol gwirioneddol o ddiwedd yr unfed ganrif ar bymtheg ac mae Bryn Celyn a Bron Haul hefyd yn dai o statws uchel o'r cyfnod hwn. Nododd y gwaith o ailadeiladu The Hand yn y 1930au newid pendant o'r gwerinol i'r trefol.

6. Factory Place, Chapel Place, Rhiw'r Bigwn a Ffynnon Barcer

Cefndir Hanesyddol

Dangosir y ffordd linellol sy'n rhedeg o Panton Place i Lôn Goch ar fap Speed o'r dref yn 1610. Erbyn hynny, roedd wedi'i datblygu'n helaeth, yn enwedig yn yr ardal a elwir bellach yn Factory Place a Chapel Place. Ni soniwyd am unrhyw strydoedd yn yr ardal hon yn y ddogfen rhent o ddiwedd y bymthegfed ganrif sy'n enwi strydoedd eraill yn y dref, felly mae'n bosibl bod yr ardal hon y tu allan i ardal ganoloesol y dref. Mae Speed hefyd yn dangos yn glir fel y mae llinell Stryd y Dŵr erbyn hyn, ynghyd â rhaniad arall rhwng parseli

Pwll y Grawys tua 1885. Cadwodd yr ardal ei chymeriad lled-wledig tan yr ugeinfed ganrif (Swyddfa Gofnodion Sir Ddinbych).



Uchod: Tai teras yn Chapel Place (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Bythynnod ar Ffynnon Barcer.

o dir a allai fod wedi cyfateb i'r bwlch islaw Gwylfa Terrace. Bellach, rhesi o fythynnod o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a welir yma fwyaf, ynghyd ag un tŷ bonedd o'r ddeunawfed ganrif. Fodd bynnag, dim ond mewn perthynas ag un adeilad y ceir awgrym clir o darddiad cynharach (6 Rhiw'r Bigwn).

Mae Ffynnon Barcer yn dilyn llwybr nant fach, a oedd yn ffynhonnell dŵr bwysig i'r dref, at ddefnydd diwydiannol a domestig: 'the insignificant and nameless rivulet which turned millions of hides, but is now nearly closed in — an important bit of sanitary improvement'.³⁷ Fe'i dangosir yn glir ar fap Speed, ynghyd ag adeiladau ar hyd ochr gogledd-orllewinol y nant. Roedd Ffynnon Barcer yn lôn gul yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gyda nifer fach o fythynnod wedi'u hadeiladu yma ac acw. Mae llawer ohonynt wedi goroesi. Roedd tanerdy ger y gyffordd â Graig Road. Cafodd y ffordd ei lledu yng nghanol neu ddiwedd yr ugeinfed ganrif wrth i'r dref ehangu tua'r gorllewin.

Potensial Archeolegol

Mae Factory Place, Chapel Place a Rhiw'r Bigwn yn nodi terfyn allanol y dref hanesyddol fel y'i dangosir ar fap Speed o'r dref yn 1610. Nid oes sicrwydd ynghylch pryd y datblygwyd yr ardal am y tro cyntaf, ac felly mae posiblwydd y gellir cael gwybodaeth am ddilyniant yr anheddiad ar yr ochr ogleddol hon o'r dref o unrhyw ymyrraeth archeolegol. Gan mai hon oedd prif wythien ddiwydiannol y dref, mae cyfle hefyd i gael gwybodaeth bellach am ddatblygiadau diwydiannol cynnar.

Nodweddion Adeiladu

Ardal breswyl yw hon yn bennaf a chaiff ei dominyddu gan resi o fythynnod o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a adeiladwyd ar strwythur lleiniau a oedd yn bodoli eisoes fel cyfres o ddatblygiadau annibynnol. Mae'r deunyddiau a ddefnyddiwyd yn amrywio o frics i garreg, gyda rhai rendrau o'r ugeinfed ganrif. Mae'r datblygiadau ar Ffynnon Barcer yn fwy gwasgaredig, ar raddfa lai ac iddynt gymeriad mwy gwerinol.

Bythynnod o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ar Riw'r Bigwn.



7. Stryd Henllan

Cefndir Hanesyddol

Dangosodd Speed fod ochr ogleddol Stryd Henllan wedi'i datblygu'n llwyr hyd at Ffordd Ysgubor yn 1610. Nododd hefyd fod rhywfaint o ddatblygu wedi mynd rhagddo ar yr ochr ddeheuol. Mae'r darlun manylach a roddir gan

yr Argraffiad Cyntaf o fap yr Arolwg Ordnans yn 1875 yn awgrymu patrwm datblygu maestrefol pendant — cymeriad llinellol cryf wedi'i nodweddu gan leiniau cymharol fyr wrth ochr y ffordd mewn ardal a oedd, fel arall, yn amaethyddol iawn. Y tu hwnt i'r tir blaen, mae'n bosibl bod y caeau hir, cul wedi deillio o'r system caeau agored a gysylltir â'r dref. Mewn cyfres o ddatblygiadau rhwng tua 1920 a 1990, defnyddiwyd yr hen dir amaethyddol hwn i adeiladu ystadau tai cyhoeddus a phreifat.

Tai yn tresmasu ar hen dir amaethyddol i'r gogledd o'r dref yn y 1980au.





Potensial Archeolegol

Er nad yw'n debygol ei bod yn rhan o'r anheddiad trefol gwreiddiol, mae'r ardal o fewn ffiniau'r dref gynnar, fel y'i mapiwyd gan Speed yn 1610. Felly, mae posibilrwydd y gellir cael gwybodaeth am adeiladau a defnydd tir sy'n gysylltiedig â'r dref gynnar o unrhyw ymyrraeth archeolegol.

Nodweddion Adeiladu

Ni chofnodwyd unrhyw adeiladau cynnar yn yr ardal hon, ac er bod llawer o'r hyn sydd wedi goroesi yn dyddio o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif, mae rhywfaint o bosibilrwydd y gallai adeiladau o'r ddeunawfed ganrif neu adeiladau cynharach oroesi — er enghraifft, rhifau 20–24 Stryd Henllan. Cafodd llawer o'r anheddau bach a welwyd ar y stryd yn flaenorol eu disodli ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. Mae rhai mathau o adeiladau a gysylltir ag ardaloedd ar gyrion trefi wedi goroesi hefyd, gan gynnwys rhai adeiladau fferm.



Uchod: Mae'n bosibl bod rhai o'r adeiladau ar Stryd Henllan yn dyddio o'r ddeunawfed ganrif neu'n gynharach.

Ailddatblygu yn yr ugeinfed ganrif ar Stryd Henllan.



Adeilad fferm yn dangos cymeriad Stryd Henllan ar gyrion y dref.



Y Fynachlog yn 1786
(Denbigh Castle,
Denbighshire,
engrafwyd gan Sparrow,
cyhoeddwyd gan
S. Hooper, Llyfrgell
Genedlaethol Cymru).

8. Ruthin Road

Cefndir Hanesyddol

Roedd gwaelod Stryd y Dyffryn yn nodi terfyn y dref a ddangoswyd ar fap Speed yn 1610. Y tu hwnt i'r terfyn hwnnw, dangosir cyfadeilad y fynachlog sy'n dyddio o ddiwedd y drydedd ganrif ar ddeg, ynghyd â grŵp rhyfedd o adeiladau wedi'u hamgáu mewn llain gromliniol gyda chwrs dŵr yn rhedeg drwyddi, a grŵp o adeiladau ar ben y ffordd i'r Eglwys Wen. Mae'n debygol mai adeilad cynharach Plas Pigot yw'r olaf o'r rhain — 'an ancient house taken down a few years ago', yn ôl John Williams yn 1856.³⁸ Adeiladwyd y tŷ presennol yn 1815 — fila heb iddi nodweddion trefol. Nodir y llain gromliniol fel perllan ar Argraffiad Cyntaf map yr Arolwg Ordians yn 1875 — mae ei ffiniau yn goroesi fel y ffin bendant a'r newid sydyn mewn lefel yng nghefn Abbey Road a Ffordd y Dyffryn. Dewiswyd yr ochr hon o'r dref hefyd fel lleoliad ar gyfer y clafdy, a adeiladwyd yn 1813. Tir ffermio a welwyd i'r gogledd, lle mae Bryn Tirion yn enghraifft o dŷ brodorol sydd wedi goroesi, ac Alafowlia — eiddo a ailddatblygwyd — yn atgof o gymeriad amaethyddol cynharach yr ardal.

Gwelwyd dyfodiad y rheilffordd yn 1858, ond nid arweiniodd hyn yn uniongyrchol at ehangu trefol. Prin oedd y datblygiad ar hyd y ffordd i Ruthun a Lanelw, lle y sefydlwyd gwaith nwy'r dref yn 1845. Ymhlith y datblygiadau gwasgaredig a welwyd ar hyd yr echel hon ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar

bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif oedd yr ysgol a chyfres o filas trefol ar Ruthin Road, ynghyd â thai hapfasnachol ar y ddwy ffordd yn dyddio o'r cyfnod rhwng y ddau ryfel. Parhaodd y datblygiad yn llinellol ar y cyfan a dim ond datblygiad cyfyngedig a welwyd y tu ôl i'r prif strydoedd (yn arbennig o amgylch Ffordd y Dyffryn). Yna, ar ôl 1938, wrth i dir ffermio gael ei ryddhau ar gyfer datblygu ystadau tai preifat a chyhoeddus ac wrth i ystad ddiwydiannol gael ei hadeiladu i'r gorllewin o'r ffordd i Lanelw, gwelwyd ffiniau'r dref yn cael eu gwthio ymhellach o lawer i'r gogledd-orllewin a'r de-ddwyrain.

Gwelwyd caeau agored yn yr ardal hon, a oedd yn gysylltiedig â'r dref ganoloesol. Mae unrhyw olion ohonynt wedi'u dinistrio gan ddatblygiad i'r gorllewin o'r A525, ond mae'n bosibl bod patrwm caeau llinellol amlwg y tu hwnt iddo yn adlewyrchu ffiniau cynnar.

Potensial Archeolegol

Roedd yr ardal hon, ar gyrion y dref hanesyddol, nid yn unig yn cynnwys sefydliad eglwysig canoloesol pwysig, ond tŷ cynnar o gryn bwysigrwydd a allai fod wedi bod yn ganolbwynt ystad fach. Yma hefyd roedd y caeau agored a oedd yn gysylltiedig â'r dref ganoloesol. Mae posibilrwydd y gellir cael gwybodaeth am ddefnydd tir cynnar yn yr ardal hon o unrhyw ymyrraeth archeolegol, gan gynnwys ffurf systemau caeau a rhaniadau tir a'u dyddiadau, yn ogystal â thystiolaeth benodol yn ymwneud â ffurf, datblygiad a diddymiad y fynachlog.

Nodweddion Adeiladu

Ar y rhan sydd agosaf at y gyffordd ar waelod Stryd y Dyffryn, gwelir rhesi bach o dai teras sy'n dyddio'n bennaf o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg ar y prif ffyrdd, gyda rhai strydoedd bach y tu ôl iddynt. Gwelir gwahaniaethau amlwg o ran statws, a fynegir drwy wahanol raddau o fanylder pensaernïol. Mae'r tai ar Ruthin Road yn fwy o faint a chanddynt orffeniad mwy addurniadol (gwaith brics amryliw) na'r tai ar St Asaph Road. Ymhlith y tai o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg ar hyd Ruthin Road mae cyfres o filas maestrefol sylweddol ond tai hapfasnachol a adeiladwyd rhwng y rhyfeloedd sy'n dominyddu'r strydlun uniongyrchol, ac ystadau tai mwy o faint ar yr hen dir ffermio y tu ôl iddynt.

9. Gorllewin Dinbych

Cefndir Hanesyddol

Roedd yr ardal y tu hwnt i derfynau'r dref hanesyddol tan ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, pan adeiladwyd marchnad wartheg yma

yn 1895, a chrëwyd ffordd newydd o Bwll y Grawys i Lôn Llewelyn. Dim ond llwybr bach drwy'r caeau a welwyd yma yn flaenorol. Yn sgîl hyn, agorwyd hen dir amaethyddol i ddatblygiad preswyl, a chafodd yr ardal i'r gogledd o Lôn Llewelyn, ynghyd â'r bloc bach o dir i'r de, eu datblygu'n raddol yn gyfres o ystadau tai cyhoeddus o'r 1920au i'r 1950au, gyda gwaith adeiladu preifat ar raddfa fach yn cael ei weld yn ddiweddarach. Symudwyd y farchnad unwaith eto a'i disodli gan archfarchnad ac adeiladwyd swyddfeydd y cyngor yma hefyd.

Potensial Archeolegol

Mae'r potensial archeolegol disgwyliadwy yn ymwneud i raddau helaeth â defnydd tir a'r dirwedd o amgylch y dref gynnar, gan gynnwys tystiolaeth yn ymwneud â ffurf systemau caeau a rhaniadau tir cynharach a'u dyddiadau.

Nodweddion Adeiladu

Caiff yr ardal ei dominyddu gan gyfres o ystadau tai, y mae eu harddulliau gwahanol yn adlewyrchu cyfnodau adeiladu gwahanol.

Tai cyhoeddus o'r ugeinfed ganrif yng ngorllewin Dinbych.



Datganiad Pwysigrwydd

Mae Dinbych yn dref llawn cyferbyniadau. Bron y gellir dweud bod dwy dref yma — y dref o fewn y muriau, a'r dref y tu hwnt iddynt. Mae'r ddwy dref yn dyddio o'r cyfnod canoloesol, ond hanes dynamig a ffyniannus a welodd un tra y cafodd y llall ei gadael ar ei hôl hi. Dilëwyd olion gweladwy'r anheddiad gwreiddiol wrth i bobl fwy neu lai adael y dref o fewn y muriau. I'r gwrthwyneb, arweiniodd ffyniant y dref y tu hwnt i'r muriau at broses o ailddatblygu parhaus, y bu bron iddi ddileu ei hanes cynnar yr un mor effeithiol. Felly, er bod natur hanesyddol Dinbych yn gwbl amlwg, nid yn unig drwy ei chastell a'i muriau ond hefyd drwy gronoleg weladwy ei hadeiladau, nid yw'n hawdd darganfod ei hanes llawn. Mae'n gwahodd, ac yn ad-dalu, ymchwiliad manylach.

Mae gan Ddinbych un o'r lleoliadau mwyaf trawiadol o blith unrhyw dref yng Nghymru. O gopa ddramatig ei bryn creigiog, safle olion ei chastell canoloesol a'i heglwys gadeiriol ysgerbydol, mae'r treflun yn rhaeadru yn blith draphlith. Ac eithrio am sgwâr y farchnad o flaen neuadd y sir, nid tref llawn nodweddion trefol crand mohoni. Ni welir unrhyw derasau unedig o dai sy'n gwneud datganiadau pensaernïol. Yn hytrach, treflun o unedau datblygu bach a welir yn Ninbych, wedi'u hadeiladu gyda'r cyfuchlinau ac ar eu traws. Mae cyferbyniadau o ran ffurf, graddfa a deunyddiau yn creu mosaig o argraffiadau gweledol sy'n cystadlu am sylw, ac yn cynnig amgylchedd sydd, yn

ddiymwad, yn ysgogol ac yn ddeniadol. Mae pensaerniaeth fasnachol o bob cyfnod yn dominyddu Stryd Fawr, lle mae patrymau datblygu tynn yn adlewyrchu pwysau economaidd ar ofod gwerthfawr. Ceir capeli yma ac acw yn y treflun, gan herio'r cyfyngiadau lle ffisegol gyda'u dyhead pensaernïol. Mae'r plastai a'u lleiniau mawr ar Stryd y Dyffryn yn cyferbynnu â bythynnod bach crefftwy'r sydd wedi'u gwthio i mewn i lonydd cul. Bron ymhobman, mae pob llain o dir yn arddangos hanes gwahanol iawn i'r rhai o boptu iddi, ac mae hyn yn arwain at dreflun amrywiol anarferol.

Y cyfoeth hwn o amrywiaeth sy'n diffinio cymeriad Dinbych. Drwy gydnabod a deall yr amrywiaeth hon, gallwn nid yn unig ddarganfod y gronoleg eithriadol sy'n gysylltiedig â datblygiad y dref ond hefyd ei hanes cymdeithasol a diwylliannol cymhleth. Mae'r Fenter Treftadaeth Treflun a'r Cynlluniau Adnewyddu Tai eisoes wedi cynorthwyo i gynnal adeiledd tai bonedd a bythynnod teras, ac mae'r amrywiaeth hon yn elfen hanfodol o'r broses o reoli gwaith cadwraeth yn dda. Fodd bynnag, yn y pen draw, mae angen gwneud mwy. Mae a wnelo'r adeiledd trefol â mwy nag adeiladau; mae a wnelo â'r patrwm defnydd tir, y strwythur lleiniau a'r trefniant gofodol. Cyfuniad o bob un o'r elfennau hyn mewn lleoliad topograffigol unigryw yw'r allwedd i ddeall a chynnal cymeriad unigryw Dinbych.

Ffynonellau Detholedig

- Maurice Beresford, *New Towns of the Middle Ages* (Caerloyw, 1988).
- L. A. S. Butler, *Denbigh Castle* (Caerdydd, 2007).
- Y Parchedig J. Evans, *The Beauties of England and Wales*, Cyf. XVII, Rhan 1 (Llundain, 1812).
- W. A. Evans, 'The Salusbury's of Llewenni and the Carmelite Friary in Denbigh', *Transactions of the Denbighshire Historical Society*, Cyf. 4 (1955).
- R. Fenton, 'Tours in Wales (1804–1813)', *Archaeologia Cambrensis*, Atodiad XVI (Llundain, 1917).
- Edward Hubbard, *The Buildings of Wales: Clwyd* (Harmondsworth, 1986).
- Samuel Lewis, *A Topographical Dictionary of Wales* (Llundain, 1833).
- Humphrey Llwyd, *Cronica Walliae*, gol. I. M. Williams (Caerdydd, 2002).
- D. H. Owen, 'Denbigh', yn R. A. Griffiths (gol.), *Boroughs of Mediaeval Wales* (Caerdydd, 1978).
- Richard Newcome, *An Account of the Castle and Town of Denbigh* (Dinbych, 1829).
- R. M. Owen, 'The Street Names of Denbigh', *Transactions of the Denbighshire Historical Society*, Cyf. 28 (1979).
- R. M. Owen, 'The Street Names of Denbigh, Part II', *Transactions of the Denbighshire Historical Society*, Cyf. 29 (1980).
- R. M. Owen, 'The Street Names of Denbigh, Part III', *Transactions of the Denbighshire Historical Society*, Cyf. 30 (1981).
- Thomas Pennant, *A Tour in Wales*, Cyf. II (Llundain, 1783; adargraffiad gyda chyflwyniad gan R. P. Evans, Wrecsam 1991).
- J. Pigot & Co., *National and Commercial Directory* (Llundain, 1828).
- Thomas Roscoe, *Wanderings and Excursions in North Wales* (Llundain, 1853).
- Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, *An Inventory of the Ancient Monuments in Wales and Monmouthshire*, Cyf. IV, County of Denbigh (Llundain, 1914).
- Isaac Slater, *Slater's Royal National and Commercial Directory and Topography of the Counties of Gloucestershire, Monmouthshire, and North and South Wales* (Manceinion, 1858).
- Isaac Slater, *Directory of North and Mid Wales* (Manceinion, 1895).
- Ian Soulsby, *The Towns of Medieval Wales: A Study of their History, Archaeology and Early Topography* (Chichester, 1983).
- John Sproule, *The Official Handbook to North Wales* (Dulyn, 1859).
- L. Toulmin Smith, gol., *The Itinerary of John Leland in or about the Years 1536–1539*, Rhan VI, Cyf. III (Carbondale, 1964).
- Gwilym Usher, 'A Survey of the Honour of Denbigh in 1334', *Transactions of the Denbighshire Historical Society*, Cyf. 3 (1954).
- Paul Vinogradoff a Frank Morgan (golygyddion), *Records of Social and Economic History* (Llundain, 1914).
- Y Parchedig Richard Warner, *A Second Walk through Wales* (Llundain, 1799).
- E. P. Williams, 'Early Victorian Denbigh', *Transactions of the Denbighshire Historical Society*, Cyf. 22 (1973).
- John Williams, *Ancient and Modern Denbigh* (Dinbych, 1856).
- John Williams, *The Records of Denbigh and its Lordship* (Wrecsam, 1860).
- John Williams, *The Castle and Borough of Denbigh* (Dinbych, 1870).
- J. Worrall, *Worrall's Directory of North Wales* (Oldham, 1874).

Mapiau o Ddinbych

John Speed, 'Denbighshire', in *The Theatre of the Empire of Great Britaine: The Second Booke...*, plate 11 (Llundain, 1611)

Arolwg Ordnans 1: 500, Argraffiad Cyntaf, 1875

Arolwg Ordnans 1: 2 500 (25-modfedd),
Argraffiad Cyntaf, 1875

Arolwg Ordnans 1: 10 560 (6-modfedd)
Argraffiad Cyntaf, 1875

Arolwg Ordnans 1: 2 500 (25-modfedd)
Ail Argraffiad, 1899

Arolwg Ordnans 1: 10 560 (6-modfedd)
Ail Argraffiad, 1899

Arolwg Ordnans 1: 2 500 (25-modfedd)
Trydydd Argraffiad, 1912

Arolwg Ordnans 1: 10 560 (6-modfedd)
Trydydd Argraffiad, 1914

Arolwg Ordnans 1: 10 560 (6-modfedd)
Pedwerydd Argraffiad, 1938

Arolwg Ordnans 1: 10 560 (6-modfedd)
Argraffiad Dros Dro, 1963

Arolwg Ordnans 1: 10 000, 1972

Atodiad 1

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru: Arolwg ac Archif yn Ninbych

Cofnod Henebion Cymru yw archif treftadaeth adeiledig Cymru, ac mae'n cynnwys lluniadau arolygon, arolygon ffotograffig, lluniau o'r awyr, mapiau, adroddiadau a deunydd archif hanesyddol. Mae'r safleoedd a'r adeiladau yn Ninbych sydd wedi'u cynnwys yn y cyhoeddiad hwn wedi'u rhestru isod. Mae rhagor o wybodaeth ar gael drwy gronfa ddata ar-lein am ddim CBHC, Coflein — www.coflein.gov.uk.

Fel arall gallwch gysylltu â gwasanaeth ymholiadau CBHC:
Gwasanaeth Llyfrgell ac Ymholiadau
CBHC
Adeilad y Goron
Plas Crug
Aberystwyth
Ebost nmr.wales@rcahmw.gov
Ffôn 01970 621200

Tref Dinbych (NPRN 33082)
Castell Dinbych (NPRN 95209)
Croes Uchel Dinbych (NPRN 23548)
Brodordy Carmelaidd (NPRN 93291)
Eglwys Sant Hilary (NPRN 94724)
Eglwys Iarll Caerlŷr (NPRN 93307)
Capel y Bedyddwyr Henllan (NPRN 7567)

Lôn Gefn
The Eagles Inn, Lôn Gefn (NPRN 26773)
The Golden Lion (NPRN 26774)

Stryd y Bont
Bryn y Ffynnon, 24 (NPRN 26824)

Crown Square
'She' (siop) (NPRN 309833)
Gwesty'r Goron (NPRN 27090)

Sgwâr y Neuadd
Neuadd y Sir (NPRN 23423)

2 (NPRN 27284)
Gwesty'r Bull (NPRN 26894)
Llain Henllan
Bryn Celyn 1 (NPRN 27724)
Bron Haul (NPRN 26831)

Stryd Fawr
21 (NPRN 27331)
Fferyllfa Royle's, 22 (NPRN 27332)
The Forum, 29 (NPRN 27338)
Siop Clwyd, 33 (NPRN 27342)
32 a 34 (NPRN 27341)
39 a 41 (NPRN 27344)

Pwll y Grawys
Ysgol Gynradd Pwll y Grawys (NPRN 23382)

Love Lane
2 (NPRN 27474)

Park Street
1 (NPRN 27620)
Bryn y Parc (NPRN 26889)


Llain Portland
9 (NPRN 308407)
Tafarn Yr Arad (NPRN 308406)

Stryd y Dyffryn
13–15 (NPRN 15)
The Kings Arms, 18 (NPRN 307352)
24 (NPRN 40198)
27–31 (NPRN 35513)
Tŷ Mostyn, 42 (NPRN 35519)
47 (NPRN 35523)
52 (NPRN 23372)
The Hawk and Buckle Inn (NPRN 35524)
Y bragdy a'r talwrn ceiliogod y tu cefn i The Hawk
and Buckle Inn (NPRN 308480 & 32680)
Grove House (y Gelli) (NPRN 401142)
Grove House (y Gelli) — hafdy a cholomendy
(NPRN 402092)


Ôl-nodiadau

1. Humphrey Llwyd, *Cronica Walliae*, gol. I. M. Williams (Caerdydd, 2002).
2. John Williams, *Ancient and Modern Denbigh* (Dinbych, 1856).
3. L. Toulmin Smith, gol., *The Itinerary of John Leland in or about the Years 1536–1539*, Rhan VI, Cyf. III (Carbondale, 1964).
4. John Sproule, *The Official Handbook to North Wales* (Dulyn, 1859).
5. L. A. S. Butler, *Denbigh Castle* (Caerdydd, 2007).
6. John Williams, *Ancient and Modern Denbigh* (Dinbych, 1856).
7. Y Parchedig J. Evans, *The Beauties of England and Wales*, Cyf. XVII, Rhan 1 (Llundain, 1812).
8. L. A. S. Butler, *Denbigh Castle* (Caerdydd, 2007).
9. John Williams, *The Records of Denbigh and its Lordship* (Wrecsam, 1860); Maurice Beresford, *New Towns of the Middle Ages* (Caerloyw, 1988); D. H. Owen, 'Denbigh', yn R. A. Griffiths (gol.), *Boroughs of Mediaeval Wales* (Caerdydd, 1978).
10. John Williams, *Ancient and Modern Denbigh* (Dinbych, 1856).
11. Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, *An Inventory of the Ancient Monuments in Wales and Monmouthshire*, Cyf. IV, County of Denbigh (Llundain, 1914).
12. D. H. Owen, 'Denbigh', yn R. A. Griffiths (gol.), *Boroughs of Mediaeval Wales* (Caerdydd, 1978).
13. D. H. Owen, 'Denbigh', yn R. A. Griffiths (gol.), *Boroughs of Mediaeval Wales* (Caerdydd, 1978); L. A. S. Butler, *Denbigh Castle* (Caerdydd, 2007).
14. J. Pigot & Co., *National and Commercial Directory* (Llundain, 1828).
15. Humphrey Llwyd, *Cronica Walliae*, gol. I. M. Williams (Caerdydd, 2002).
16. John Williams, *Ancient and Modern Denbigh* (Dinbych, 1856); L. A. S. Butler, *Denbigh Castle* (Caerdydd, 2007).
17. John Williams, *Ancient and Modern Denbigh* (Dinbych, 1856).
18. Y Parchedig Richard Warner, *A Second Walk through Wales* (Llundain, 1799).
19. Humphrey Llwyd, *Cronica Walliae*, gol. I. M. Williams (Caerdydd, 2002).
20. D. H. Owen, 'Denbigh', yn R. A. Griffiths (gol.), *Boroughs of Mediaeval Wales* (Caerdydd, 1978).
21. L. Toulmin Smith, gol., *The Itinerary of John Leland in or about the Years 1536–1539*, Rhan VI, Cyf. III (Carbondale, 1964).
22. John Williams, *Ancient and Modern Denbigh* (Dinbych, 1856).
23. Thomas Pennant, *A Tour in Wales*, Cyf. II (Llundain, 1783; adargraffiad gyda chyflwyniad gan R. P. Evans, Wrecsam 1991).
24. John Williams, *Ancient and Modern Denbigh* (Dinbych, 1856).
25. J. Worrall, *Worrall's Directory of North Wales* (Oldham, 1874).
26. Thomas Roscoe, *Wanderings and Excursions in North Wales* (Llundain, 1853).
27. John Williams, *The Records of Denbigh and its Lordship* (Wrecsam, 1860).
28. John Williams, *Ancient and Modern Denbigh* (Dinbych, 1856).
29. R. M. Owen, 'The Street Names of Denbigh, Part II', *Transactions of the Denbighshire Historical Society*, Cyf. 29 (1980).
30. John Williams, *Ancient and Modern Denbigh* (Dinbych, 1856).
31. Richard Newcome, *An Account of the Castle and Town of Denbigh* (Dinbych, 1829).
32. Richard Newcome, *An Account of the Castle and Town of Denbigh* (Dinbych, 1829).
33. John Williams, *Ancient and Modern Denbigh* (Dinbych, 1856).
34. John Williams, *Ancient and Modern Denbigh* (Dinbych, 1856).
35. John Williams, *Ancient and Modern Denbigh* (Dinbych, 1856).
36. John Williams, *Ancient and Modern Denbigh* (Dinbych, 1856).
37. John Williams, *Ancient and Modern Denbigh* (Dinbych, 1856).
38. John Williams, *Ancient and Modern Denbigh* (Dinbych, 1856).


1 Dinbych:Y Dref Ganoloesol




2 Dinbych:Y Dref a'r Dirwedd Ganoloesol




3 Twf Dinbych




4 Pob Ardal Cymeriad




5 Ardaloedd Cymeriad: Henebion Cofrestredig, Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth




6 Y Castell a'r Dref Gaerog (1)




7 Stryd Fawr (gan gynnwys Llain Portland, Lôn Gefn, Lôn Crown, Lôn Swan a phen uchaf Stryd y Dyffryn) (2)




8 Stryd y Dyffryn (gan gynnwys Lôn Parc, Lôn Ganol, Lôn y Post a Peake's Lane) (3)




9 Love Lane (4)




10 Pwll y Grawys a Bridge Street (5)




11 Factory Place, Chapel Place, Rhiw'r Bigwn a Ffynnon Barcer (6)




12 Stryd Henllan (7)



13 Ruthin Road (8)



14 Gorllewin Dinbych (9)





Cadw yw gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn gweithio i sicrhau amgylchedd hanesyddol hygyrch a ddiogelir yn dda i Gymru.

Cadw
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Plas Carew
Uned 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd CF15 7QQ